

'Lôn sidan o syniadau sydd yn gweu / (heb chwys na swigod traed i flino'i hynt)':¹ Thomas Pennant yn Tsieina

Yr oedd y naturiaethwr a'r teithiwr Thomas Pennant (1726–98) o Downing, sir y Fflint, fel eraill o gymeriadau blaenllaw yr Ymoleuedigaeth Ewropeaidd, yn ymddiddori yn Tsieina ymhell cyn iddo fynd ati tua diwedd ei oes i lunio adroddiad ynglŷn â'r wlad ar ffurf 'taith ddychmygol'. Rhan oedd yr adroddiad hwn o'r hyn a ddisgrifiodd Pennant fel ei 'magnum opus', sef casgliad o ddwy ar hugain o lawysgrifau trwchus yn cofnodi ymweliadau ffuglennol â'r rhan fwyaf o gyfandiroedd y byd. Yn wledd weledol, llawn printiau a dyfrlliwiau i gyfoethogi'r testun, rhoddodd Pennant i'r campwaith hwn y teitl 'Outlines of the Globe', a bu'n brysur yn ei lunio o tua 1788 hyd at ddiwedd ei oes.² Un wlad ymhlith llawer oedd Tsieina o fewn cwmpas y gwaith hynod uchelgeisiol hwn, a nod y drafodaeth sy'n dilyn yw cynnig golwg gychwynol ar ymdriniaeth Pennant â hi fel enghraifft o'i waith sylweddol fel teithiwr 'cadair freichiau' byd-eang. Y mae'n gam pwysig wrth i ni asesu'n llawn waith Pennant gan nad yw wedi cael fawr sylw hyd yma.³ At hyn, cyfyd cwestiynau ynghylch sut yr edrychid ar ddiwylliannau y tu hwnt i ffiniau Ewrop gan Pennant, fel Cymro a drigai yn Ymerodraeth gynyddol ddylanwadol Prydain y ddeunawfed ganrif. Ceir yma gyfle i ystyried a herio hegemoni'r Ewrop honno a'i gwaddol yn ein dyddiau ni.

Cyflwyniad

Pennant y teithiwr

Yr oedd teithio yn rhan annatod o brofiad Pennant o'r byd, o'i ieuentid hyd ei ddyddiau olaf. Ffosilau a mwynau oedd ei ddilêit yn ŵr ifanc, ac arweiniodd y diddordeb hwn at deithiau maes yng Nghernyw ac Ynys Wyth pan oedd yn fyfyrwr ym Mhrifysgol Rhydychen, ac Ynys Sheppey yng Nghaint ac ardaloedd yng ngogledd Cymru yn ystod y 1750au cynnar, wedi iddo ddychwelyd i gartref y teulu ym mhlwyf Chwitfordd, sir y Fflint.⁴ Yr oedd arwyddion cynnar bod diddordebau Pennant yn fwy eclectig na'i ddiddordebau daearegol yn unig, fodd bynnag: '... it is my Custom never to stop at any place without enquiring into the curiosities, manufactures, etc', meddai mewn llythyr o Wigan, swydd Gaerhirfryn, ym mis Awst 1753.⁵ Erbyn iddo deithio i'r Cyfandir yn 1765, bellach yn ŵr gweddw â dau o blant, yr

¹ Ifor ap Glyn, 'Lôn Sidan y syniadau (i nodi ymweliad Masnach a Diwylliant Llywodraeth Cymru â Tjeina, Mawrth 2018)', ar <<https://www.llenyddiaethcymru.org/ein-prosiectau/bardd-cenedlaethol-cymru/cerddi-comisiwn-ifer-ap-glyn/lon-sidan-y-syniadau/>> [cyrchwyd 6 Ionawr 2023].

² Ynghylch dyddiad cychwyn y gwaith, gw. R. Paul Evans, 'The Life and Work of Thomas Pennant (1726–1798)' (traethawd PhD anghyhoeddedig Prifysgol Cymru, Abertawe, 1993), tt. 616–17. Y mae'r llawysgrifau oll yn rhan o gasgliadau'r Amgueddfa Forwrol Genedlaethol, Greenwich (AFG mewn cyfeiriadau pellach), Thomas Pennant, 'Outlines of the Globe', P/16/1–/25. Gw. <<https://www.rmg.co.uk/collections/archive/rmgc-object-492490>> [cyrchwyd 16 Tachwedd 2022].

³ Am drafodaeth Evans, gw. 'The Life and Work of Thomas Pennant (1726–1798)', tt. 616–57. Yn fwy diweddar, dyfarnwyd ysgoloriaeth Cairns i Dr Rhys Kaminski-Jones, Canolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru, i weithio ar y casgliad yn yr AFG (2022–23), ac arian gan Rwydwaith Arloesi Cymru i Ffion Mair Jones weithio ar lawysgrif benodol o'r casgliad, sef 'Nigretian Africa', P/16/11; gw. <<https://curioustravellers.ac.uk/cy/cefnogaeth-i-ddau-brosiect-cychwynol-ar-outlines-of-the-globe-gan-thomas-pennant/>> [cyrchwyd 2 Rhagfyr 2022].

⁴ Evans, 'The Life and Work of Thomas Pennant (1726–1798)', t. 575; ac am ei deithiau cynnar yng ngogledd Cymru, gw. Thomas Pennant at Emanuel Mendes da Costa, 17 Awst 1752, yn Archifdy Sirol Swydd Warwig (ASSW mewn cyfeiriadau pellach), CR 2017/TP408/14.

⁵ Thomas Pennant at Henry Baker, 14 Awst 1753, yn Llyfrgell Prifysgol Manceinion, English MS 19, cyf. V, rhif 304.

oedd y chwilfrydedd hwn wedi ymestyn i gynnwys hynafiaethau, celf, tirwedd, cyfraith a threfn, arferion y werin, dulliau teithio ac, yn goron i'r cyfan, ei faes arbenigol newydd, sŏoleg.⁶ Crisialwyd y diddordebau lluosog hyn yn ei gyhoeddiadau fel teithiwr yn ôl ar dir Prydain o 1769, dyddiad y gyntaf o ddwy daith i'r Alban, gyda theithiau yng Nghymru yn ymddangos mewn cyfrolau darluniedig rhwng 1778 ac 1784.⁷

Wrth i Pennant fynd yn hŷn, lleihaodd ei arfer o deithio ar hyd gwlad a throes yn ei sylw yn hytrach at gynllun mwyaf uchelgeisiol ei fywyd, 'Outlines of the Globe'. Yn y gwaith amlgyfrol hwn rhoddodd sylw i wledydd a chyfandiroedd tramor, gan ddilyn amlinelliad eu traethau i roi darlun cynhwysfawr ohonynt o safbwynt imperialaidd ac Ymoleuedig. Yr un galon a gurai ym mynwent Pennant, ac yntau dros ei drigain mlwydd oed, ag ym mynwes y Pennant ifanc a ysgrifennodd o Wigan yn 1753 am ei chwilfrydedd ynghylch popeth a welai o'i gwmpas: 'I mingle history, natural history, accounts of the coasts, climates, and every thing which I thought could instruct or amuse', meddai yn ei hunangofiant am 'Outlines of the Globe'.⁸ Chwyddodd y gwaith o bedair cyfrol lawysgrif ar ddeg yn 1793 i ddwy ar hugain erbyn marwolaeth Pennant yn 1798.⁹ Beth tybed oedd bwriadau Pennant ar gyfer yr 'Outlines'? 'With the bare possibility of the volume relative to India, none of these books are to be printed in my life-time; but to rest on my shelves, the amusement of my advancing age', meddai yn 1793.¹⁰ Bu ailfeddwl ynglŷn â hyn yn ddiweddarach serch hynny ac, ar un adeg, ymddengys iddo ystyried cyhoeddi'r gwaith yn ei gyfanrwydd. Goroesodd ymhlith papurau Pennant gytundeb rhyngddo a'r argraffwr Benjamin White, yr ieuengaf, i gyhoeddi'r ddwy gyfrol ar hugain, gyda thaliadau White amdanynt i gychwyn ar 1 Ionawr 1796.¹¹ Yn y diwedd, fodd bynnag, nifer gyfyngedig a welodd olau dydd, dwy gyfrol ar India yn ystod bywyd Pennant, a chyfrolau cartref a thramor pellach wedi ei farwolaeth, o dan olygyddiaeth ei fab, David Pennant (1763–1841), gan gynnwys y gyfrol sy'n trafod Tsieina.¹²

⁶ Thomas Pennant, *Tour on the Continent 1765*, gol. gan G. R. De Beer (London, 1948); a'r map rhyngweithiol o'r daith: Ffion Mair Jones a Yann Ryan, 'Thomas Pennant's Tour of the Continent', ar <https://networkingarchives.github.io/pennant_map_dashboard> [cyrchwyd 27 Rhagfyr 2022].

⁷ Cyhoeddwyd argraffiadau cyntaf y teithiau Albanaidd, *A tour in Scotland. MDCCCLXIX [1769]* ac *A tour in Scotland, and voyage to the Hebrides; MDCCCLXXII [1772]* yn 1771 ac 1774; a'r teithiau yng Nghymru, *A tour in Wales. MDCCCLXX, A Journey to Snowdon a Continuation of the Journey* yn 1778, 1781 ac 1783, gydag ail argraffiad yn cynnwys y cyfan yn 1784. Am lyfryddiaeth o deithiau Pennant yn yr Alban a Chymru, gw. Alex Deans, 'Llyfryddiaeth fer i Deithiau Thomas Pennant yng Nghymru a'r Alban', ar <<https://curioustravellers.ac.uk/cy/llyfryddiaeth-fer-i-deithiau-thomas-pennant-yng-nghymru-ar-alban/>> [cyrchwyd 2 Rhagfyr 2022].

⁸ Thomas Pennant, *The Literary Life of the Late Thomas Pennant, Esquire* (London, 1793), t. 40.

⁹ Ibid., tt. 41–5; *idem*, *The History of the Parishes of Whiteford and Holywell* (London, 1796), tt. 318–22; Evans, 'The Life and Work of Thomas Pennant (1726–1798)', tt. 616–17.

¹⁰ Pennant, *The Literary Life of the Late Thomas Pennant*, t. 41.

¹¹ 'MS. draft of terms of sale of "Outlines ..." to Benjamin White', yn yr AFG, P/16/1, rhif 3. Ymhellach, gw. Evans, 'The Life and Work of Thomas Pennant (1726–1798)', t. 620, lle nodir bod dyfrnod 1794 ar y papur y cofnodwyd y cytundeb arno.

¹² Y cyfrolau tramor cyhoeddedig yw Thomas Pennant, *The View of Hindoostan*, 2 gyf. (London, 1798); *idem*, *The View of India Extra Gangem, China and Japan*, gol. gan David Pennant (London, 1800); ac *idem*, *The View of the Malayan Isles, New Holland and the Spicy Islands*, gol. gan David Pennant (London, 1800), cyfrolau P/16/14–18 ymhlith llawysgrifau 'Outlines of the Globe'. Y cyfrolau cartref oedd adroddiad o siwrneiau gwirioneddol gan Pennant a gynhwyswyd yn 'Outlines of the Globe', sef ei daith o Lundain i Dover yng Nghaint ac ymlaen i bellafion Ynys Wyth (cyfrolau 20 a 23) a'i daith i Alston Moor yng ngogledd Lloegr (cyfrol 22). Fe'u cyhoeddwyd fel Thomas Pennant, *A journey from London to the Isle of Wight. 1. From London to Dover*

Yn y cytundeb â White, neilltuodd Pennant sylw i deithiau gwirioneddol a wnaethai ac a gynhwyswyd yn rhan o'r 'Outlines'. Eithriadau oedd y rhain, fodd bynnag: fel awdur y 'foreign parts', sef pedair cyfrol ar bymtheg arall yr 'Outlines', nid oedd gan Pennant unrhyw brofiad llygad-dyst i'w gynorthwyo, ac yr oedd ei waith yn perthyn i gategori y gellid ei enwi fel teithio damcaniaethol gan rai a ddibynnai ar adroddiadau rhagflaenwyr. Ynghyd â chyfrolau hen a newydd, defnyddiodd Pennant dystiolaeth teithwyr ei oes ei hun, 'living travellers of the most respectable characters of my time', i lunio'r 'Outlines'.¹³

Un o orchwylion Pennant fel teithiwr damcaniaethol, neu deithiwr cadair freichiau, oedd dehongli'i ffynonellau niferus, nithio'r us rhag y grawn, a phenderfynu beth o'r hyn a honnwyd gan lygad-dystion a ellid ei ystyried yn wir, ar y naill law, a beth oedd yn rhy hynod i fod yn gredadwy, ar y llaw arall. Gorwedda'i cryn gyfrifoldeb ar ei ysgwyddau ef ac eraill a ddarllenai ac a ddehonglai ffynonellau o'r fath. Yn anochel, wrth i rai adroddiadau gael eu derbyn fel gwirionedd, crisielid hwynt yn gredoau sefydlog a'u hailadrodd yn eang gan greu haenen bellach o ansicrwydd ynghylch hygredd.¹⁴ Wrth fentro i lunio'i adroddiadau taith cadair freichiau ei hun, yr oedd Pennant, fel eraill o awduron blaengar yr Ymoleuedigaeth, yn ymwybodol o'r perygl hwn ond ar yr un pryd yn dra dibynnol ar ei ragflaenwyr hanesyddol. Fel y cawn weld wrth archwilio ei destun ar Tsieina, troes at ddulliau empeiraidd i fesur tryloywedd adroddiadau'r gorffennol, a gwnaeth ddefnydd o dystiolaeth llygad-dyst cydnabod iddo a dreuliasai amser yn y wlad er mwyn gwrthbwysu'r peryglon. Serch hynny, cyflwynai Tsieina'i heriau unigryw ei hun i Pennant fel awdur teithlyfr. Gan fod y rhannau helaethaf ohoni wedi parhau i fod yn anhygyrch i fasnachwyr y gorllewin ar hyd ei hanes, yr oedd ei phortreadu o bellter yn sialens sylweddol. Daeth newid arwyddocaol yn y sefyllfa hon o sabwynt Prydeinig tua diwedd oes Pennant, yn dilyn y llysgenhadaeth Brydeinig gyntaf i Tsieina yn 1793, a enwyd Llysgenhadaeth Macartney ar ôl ei harweinydd, George Macartney (1737–1806). Cyhoeddwyd adroddiad o'r daith yn 1797 gan aelod o'r tîm, Syr George Staunton (1737–1801), botanegydd ac aelod o Gwmni India'r Dwyrain. Daeth yr wybodaeth hon yn rhy ddiweddar i gael ei chynnwys yn adroddiad Pennant, ond pan olygwyd y llawysgrif i'w chyhoeddi gan ei fab David yn dilyn ei farwolaeth, gwnaed sawl cyfeiriad ati mewn troednodiau manwl.¹⁵

Dyddiau cynnar (1757–1780au): Y diddordeb yn Tsieina

Fel rhan o'i gynllun i ddilyn arfordiroedd y cefnforoedd ('oceanic shores'), yr oedd lle diamheuol i adroddiad am Tsieina yn 'Outlines' Pennant.¹⁶ Er mai fel gwaith ei henaint y cyflwynodd y prosiect, fodd bynnag, ceir tystiolaeth bod diddordeb Pennant yn yr

(London, 1801); *A journey from London to the Isle of Wight. 2. From Dover to the Isle of Wight* (London, 1801); *A Tour from Alston Moor to Harrogate and Brimham Crag* (London, 1804).

¹³ Pennant, *The Literary Life of the Late Thomas Pennant, Esquire*, t. 40. Ymhlith y teithwyr cymeradwy hyn yr oedd swyddogion mewn cwmnïau megis Cwmni India'r Dwyrain, morwyr ar longau'r llynges frenhinol, a'i fab ei hun, David Pennant.

¹⁴ Gw. sylwadau'r Ffrancwr Anquetil Duperron ynghylch hyn yn nhrafodaeth Jürgen Osterhammel, *Unfabling the East: The Enlightenment's Encounter with Asia*, cyfieithwyd gan Robert Savage (Princeton, New Jersey, 2018), t. 364.

¹⁵ George Staunton, *An Authentic Account of an Embassy from the King of Great Britain to the Emperor of China*, 3 cyf. (London, 1797). Yr oedd adroddiad Pennant ynghylch Tsieina i'w weld yn rhan o'r drydedd o bedair cyfrol o'r 'Outlines of the Globe' a gyhoeddwyd (gw. n. 11 uchod). Cyfeirir at y gyfrol hon fel *OG, III* yng ngweddill yr ysgrif hon, ac at y rhan ohoni sy'n trafod Tsieina fel 'Tsieina'.

¹⁶ Pennant, *The Literary Life of the Late Thomas Pennant, Esquire*, t. 40.

ymerodraeth hon yn mynd yn ôl i gyfnod cynnar yn ei ddatblygiad. Bwydwyd chwilfrydedd y Pennant ifanc ynglŷn â Tsieina gan ei gyswllt eang â naturiaethwyr ar draws Prydain a chyfandir Ewrop, gan ei deithiau ym Mhrydain o'r 1740au ymlaen ac, yn 1765, gan ei daith dros y culfor i Ffrainc, y Swistir, yr Almaen, yr Iseldiroedd, a Gwlad Belg. Pan oedd yn ei dridegau a'i bedwardegau, yn ystod y 1750au a'r 1760au, ymdrechodd i sefydlu rhwydwaith o ohebwy'r Ewropeaidd y gallai drafod darganfyddiadau ym myd daeareg, botaneg, a sŵoleg â hwy – ei brif ddiddordebau deallusol ar y pryd.¹⁷ Yn ogystal â chyfnewid sbesimenau yn y meysydd hyn, yr oedd ymledu argaeledd ymchwil gyhoeddedig yn flaenllaw ym meddyliau'r gohebwy'r, â'r angen i gyfieithu deunydd gwreiddiol o ieithoedd Llychlyn (crud rhai o'r naturiaethwyr mwyaf nodedig) yn flaenaf ym meddyliau rhai ohonynt.¹⁸ Ym mis Chwefror 1757, ysgrifennodd yr enwocaf o'r Llychlynwyr, Carl Linnæus (1707–1778), at Pennant, gan roi iddo'r newyddion am ei ethol yn unfrydol yn aelod o Gymdeithas Frenhinol Uppsala, anrhydedd y rhoes Pennant bwys mawr arno gydol ei fywyd.¹⁹ Yn yr un llythyr, soniodd Linnæus bod cyfrolau dau o'i ddisgyblion, neu ei 'apostolion' fel yr adwaenid hwy, newydd eu cyhoeddi. Un o'r rhain oedd gwaith y fforiwr a'r naturiaethwr Pehr Osbeck (1723–1805), yn cyflwyno adroddiad o siwrnai i Tsieina yn 1750–2. Nid oedd y testun Swedeg hwn yn ddealladwy i Pennant, ond awgryma amler y cyfeiriadau ato yn ei ohebiaeth pa mor awyddus ydoedd i'w ddarllen. Ni ddaeth dim o si yn 1762 bod gŵr bonheddig o Sweden yn bwriadu cyfieithu cyfrol Osbeck, a bu'n rhaid aros am bron i ddegawd arall cyn i'r anturiaethwr Johann Reinhold Forster (1729–1798) gwblhau'r gwaith. Cynhwysodd Forster ragair yn cyflwyno'i gyfieithiad i Pennant, gan ddiolch iddo am ei nawdd a nodi bod cyfrol Osbeck wedi bod yn destun sawl sgwrs rhwng y ddau.²⁰ Yn ei frwdfrydedd am gael gweld gwaith Osbeck a'i gefnogaeth i ymdrechion Forster, gellir gweld Pennant fel cyfranwr i'r broses o ganoneiddio testunau ac iddynt dystiolaeth ar ffurf empeiraidd, ddiweddar, a dibynadwy, gan eu bwydo i mewn i ffrwd o gyfalaf diwylliannol Ewropeaidd ynghylch y byd y tu hwnt i ffiniau'r cyfandir hwnnw.²¹

Ymddiddorai Pennant nid yn unig mewn testunau'n ymwneud â Tsieina ond hefyd yn ei diwylliant materol. Yn 1757, treuliodd amser ar ystad Shugborough yn swydd Stafford, eiddo'r aelod seneddol Thomas Anson (1695-1793); yn ddiweddarach, cofnododd ymweliadau â Shugborough yn un o'i gyhoeddiadau, *The Journey from Chester to London*, gan nodi presenoldeb 'tŷ Tsieineaidd' yn y gerddi.²² Y mae'n debyg bod y tŷ wedi'i godi cyn

¹⁷ Ffion Mair Jones, ' "A little close fisted": Cysylltiadau Cyfandirol Thomas Pennant (1753–65)', darlith anghyhoeddedig, seminarau Canolfan Uwchfrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru, 11 Chwefror 2021; Philip Bealey, Ffion Mair Jones, a Yann Ryan, ' "From the Cabinets of mere virtuosi into the busy world": Thomas Pennant's Natural Philosophical Networks and the Creation of *British Zoology*, 1752–1766', *Huntington Library Quarterly* (i ymddangos).

¹⁸ Jones, ' "A little close fisted": Cysylltiadau Cyfandirol Thomas Pennant (1753–65)'.

¹⁹ Carl Linnæus at Thomas Pennant, 22 Chwefror 1757, yn Llyfrgell Prifysgol Uppsala.

²⁰ Benjamin Stillingfleet at Thomas Pennant, 2 Mawrth 1762, yn ASSW, CR 2017/TP367/3; Pehr Osbeck, *A Voyage to China and the East Indies*, cyf. gan Johann Reinhold Forster, 2 gyf. (London, 1771), I, tt. iii–v.

²¹ Osterhammel, *Unfabling the East*, t. 239.

²² Thomas Pennant at Emanuel Mendes da Costa, 14 Medi 1757, yn ASSW, CR 2017/TP408/151; *idem*, *The Journey from Chester to London* (London, 1783), t. 93. Awgrymir mai'r pensaer Thomas Wright oedd yn gyfrifol am adeiladu'r tŷ Tsieineaidd. Dienw, 'Creating a Perfect Paradise', ar <<https://www.nationaltrust.org.uk/shugborough-estate/features/creating-a-perfect-paradise>> [cyrchwyd 6 Tachwedd 2022]. Sylwer bod Pennant yn priodoli'r cynllun i'r llyngesydd Percy [Peircy] Brett (1709–81), gan ei ganmol fel enghraifft ddilys o bensaerniaeth Tsieineaidd, 'not a mongrel invention of British carpenters'. Pennant, *The Journey from Chester to London*, t. 93. Ymhellach ynghylch Anson a'i deulu, gw. History of

gynhared â 1747 a byddai Pennant wedi'i weld sawl gwaith cyn i'w arlunydd, Moses Griffith, lunio paentiad ohono tua 1780.²³ Dros y culfor yn Ffrainc a gwledydd eraill gorllewin Ewrop, yr oedd y diddordeb yn Tsieina cyn gryfed ag ym Mhrydain. Ar ei daith i'r Cyfandir yn 1765, tynnwyd sylw Pennant at gerfluniau o dduwiau Tsieineaidd yn eglwys Notre Dame, Paris ('very grotesque'); enghraifft o Waith Tapestri Gobelin yn adrodd hanes Tsieina yn yr Hotel de Toulouse, eto ym Mharis; cabinet Tsieineaidd ym Mrwsel, wedi'i addurno â ffigyrau gwŷr a gwragedd Tsieineaidd yn eu gwisgoedd priodol, ar raddfa bywyd go iawn; heb sôn am ffatrioedd mewn sawl lleoliad yn creu porslen Tsieineaidd, y rhan fwyaf ohono'n 'extravagantly dear'.²⁴ Yn y cyffyrddiadau hyn, yr oedd Tsieina yn gwneud ei phresenoldeb yn hysbys yn Ewrop. Yn wir, mor gryf oedd y diddordeb fel y credir bod effaith economaidd a diwylliannol masnach Asiaidd ar Ewrop yn gryfach nag effeithiau cyfatebol Ewrop ar Asia ar ddechrau'r ddeunawfed ganrif; ac erbyn dechrau'r ganrif ddilynol, yr oedd y fordaith i Tsieina yn 'llwybr sathredig', yn ôl un sylwebydd.²⁵

'Tsieina' Thomas Pennant: Ffynonellau, dylanwadau, a safbwyntiau

(i) Lleisiau'r Ymoleuedigaeth

Uchafbwynt Llysgenhadaeth 1793 oedd cyfarfod rhwng Macartney ac Ymerawdwr Tsieina, Qianlong (1711–99), pumed ymerawdwr llinach Manshw y Qing, a deyrnasai rhwng 1735 ac 1796. Oherwydd y diffyg asio amseryddol rhwng tystiolaeth gyfredol bwysig Llysgenhadaeth Macartney ac union gyfnod cyfansoddi adroddiad Pennant ar Tsieina, nid Qianlong sy'n cyfarch y darllynydd wrth iddo gychwyn ar ei daith i'r Deyrnas Ganol ('Middle Kingdom'; *Zhongguo* 中國) yng nghwmni Pennant. Mewn disgrifiad byrlymus, llawn edmygedd, cawn ddarlun o deyrnas unigryw: y mae ei phoblogaeth yn enfawr a'i chwmpas daearyddol yn aruthrol, meddai Pennant ac, er gwaethaf hynny, fe'i rheolir gan un gŵr ar ei ben ei hunan ('all are ruled by a single man!').²⁶ Haniaeth, ymron, yw'r ymerawdwr hwn: ni cheir un cyfeiriad ato wrth ei enw gydol y gwaith, er bod ymerawdwyr blaenorol yn cael eu henwi; ac ni cheir portread ohono ychwaith, mewn llawysgrif sy'n llawn darluniau, yn eu plith brint o un o'i ragflaenwyr, yr Ymerawdwr Kangxi (teyrnasai 1661–1722).²⁷ Nid adroddiad ynghylch sefyllfa gyfredol yw un Pennant, felly, ac y mae agoriad y gwaith yn tystio iddo gael ei drwytho mewn argraffiadau Ymoleuedig Ffrengig o Tsieina, yn dyddio o ganol y ddeunawfed ganrif ac mai'r rhain sy'n ei arwain, yma. Enwir Voltaire (1694–1778) yn y drydedd frawddeg gan ddyfynnu ei amcangyfrif ef o boblogaeth Tsieina, sef 150 miliwn – ni all David Pennant ond siarad o'r cyrion i gywiro'r ffigwr hwn gyda 'The more accurate information obtained by Lord Macartney's embassy', a chynnig y rhif 333,000,000, dros ddwywaith cyfrif y

Parliament arlein d.e. Anson, Thomas (?1695–1773), of Shugborough Hall, Staffs., ar <<https://www.historyofparliamentonline.org/volume/1715-1754/member/anson-thomas-1695-1773>>; a 'Shugborough Hall, the Ansons and the eighteenth-century Atlantic economy', ar <<https://www.oocdtp.ac.uk/shugborough-hall-ansons-and-eighteenth-century-atlantic-economy>> [cyrchwyd 16 Tachwedd 2022].

²³ Dienw, 'Creating a Perfect Paradise'; Moses Griffith, 'The Chinese House', dyfrlliw ar bapur, c.1780. Gw. <<https://www.nationaltrustcollections.org.uk/object/1270629>>; a'r awgrym ynghylch dyddio yn dienw, 'East comes West', ar <<https://thegardenstrust.blog/2018/09/08/east-comes-west/>> [cyrchwyd 6 Tachwedd 2022].

²⁴ Pennant, *Tour on the Continent 1765*, tt. 8, 14, 24, 26, 168.

²⁵ Osterhammel, *Unfabling the East*, tt. 102, 532 n. 35, 69.

²⁶ *OG*, III, t. 87.

²⁷ Pennant, 'China and Japan', yn yr AFG, P/16/17, rhwng tt. 194 ac 195. Ymhellach gw. Atodiad Delweddu, rhif 1. Sylwer bod portread wedi'i lunio o'r Ymerawdwr Qianlong (1711–99) gan un o arlunwyr swyddogol Llysgenhadaeth Macartney, William Alexander, ac iddo gael ei gyhoeddi yn Llundain yn 1796. Gw. https://www.britishmuseum.org/collection/object/P_1877-0609-2039 [cyrchwyd 7 Tachwedd 2022].

Ffrancwr.²⁸ Y mae cysgod un o gyfoeswyr Voltaire, Montesquieu (1689–1755) i'w deimlo'n gryf, hefyd, wrth i Pennant ystyried nodweddion gormesol ('despotic') mewn trafodaeth sy'n adlewyrchu ymdriniaeth yr athronydd gwleidyddol Ffrengig hwn â'r pwnc: y ffaith bod gair yr ymerawdwr yn ddeddf ('his words are law');²⁹ yr arfer yn Tsieina o gosbi tadau am ffaeiddau eu plant (nodwedd â'i tharddiad mewn grym gormesol);³⁰ a'r ffaith bod yr ymerawdwr yn gweithredu fel barnwr.³¹ Yn fuan, gwneir y ddibyniaeth ar Montesquieu yn gwbl agored â Pennant yn dyfynnu talp helaeth o'i sylwadau ynghylch parch y Tsieinaid at eu cynrychiolwyr, boed rieni, hen wŷr, meistri, ynadon, neu'r pennaeth [ymerawdwr] ei hun, a'r modd y plethwyd yr arferion hyn at ei gilydd i ffurfio defodiaeth a gynhaliai, yn ei thro, drefn yr unbennaeth Tsieinaidd.³² Nid Montesquieu yw'r unig ddylanwad yn y drafodaeth, serch hynny: cydnabyddir hefyd bwysigrwydd y cysyniad o barch mab at ei dad ('filial piety') i athroniaethau neu grefyddau eraill, un ohonynt yn gadarn Tsieinaidd, un arall yn gartrefol Gristnogol â Pennant yn crybwyll gwaith yr athronydd Confucius a'r Pumed Gorchymyn o'r Hen Destament, â'u pwyslais ar barchu rhieni.³³

(ii) *Trafod hil ac ethnigrwydd*

Yn y drafodaeth agoriadol hon, er gwaethaf ymdeimlad o ryfeddod ac edmygedd at raddfa a threfn (lle nad yw'r gormesol bob amser hyd yn oed fel petai'n negyddol), rhydd Pennant olwg feirniadol o'r Tsieinaid ar ambell gyfrif. Y mae o'r farn bod pwyslais haearnidd rhieni ar ddisgyblu eu hepil yn arwain nid yn unig at barch oddi wrth eu plant ond hefyd at ofn a mileindra ('fear and meanness'), nodweddion sydd, yn eu tro, yn sefydlu twyll a dichell ('deceit and fraud'). At hyn, myn bod pwyslais y Tsieinaid ar barch tuag at aelodau amlycaf eu cymdeithas yn arwain at ymddygiad defotgar ('ceremonious'), â'r rhai o isel radd yn dangos cwrteisi cwbl ffuantus ('the most profound artificial civility').³⁴ Y mae'r pegynnu rhwng difrio ac edmygu yn parhau drwy gorff y gwaith. At y sylwadau ynghylch arferion ac ymddygiad, un man arall lle y gwelir tuedd i israddoli yw mewn cyfeiriadau at hil ac ethnigrwydd pobloedd Tsieina a'r ardaloedd cyfagos.

Yr oedd 'hil' yn gysyniad a ddatblygai yn Ewrop o ddiwedd yr ail ganrif ar bymtheg ymlaen, â gwybodusion yn nodi'r diffyg sylw i ddadansoddi a dosbarthu bodau dynol er gwaethaf ymdrechion cynhwysfawr gwyddonwyr i gyflawni'r tasgau hyn ar gyfer gweddill y

²⁸ *OG, III, t. 87.*

²⁹ *OG, III, t. 87*; Charles Louis de Secondat, Baron de Montesquieu, *Complete Works, vol. 1. The Spirit of Law*, ar <<https://oll.libertyfund.org/title/montesquieu-complete-works-vol-1-the-spirit-of-laws>>, Pennod X ('Difference of Obedience in moderate and despotic Governments'), lle nodir 'man is a creature that blindly submits to the absolute will of the sovereign'.

³⁰ Gw. Montesquieu, *The Spirit of Law*, Pennod XX ('Of the Punishment of Fathers for the Crimes of their Children'), lle cyfeirir yn benodol at yr arfer hwn yn Tsieina (a Peru) a'i glymu wrth rym gormesol; ac *OG, III, tt. 89–90*, lle trafodir yr arfer o gosbi perthnasau plentyn sy'n cyflawni tadleiddiad, ynghyd â'r mandariniaid lleol, a'r plentyn ei hun.

³¹ *OG, III, t. 90* ('The emperor himself is judge ...'); Montesquieu, *The Spirit of Law*, Pennod V ('In what Governments the Sovereign may be Judge': 'by determining criminal causes, he would be both judge and party').

³² *OG, III, t. 89*; Montesquieu, *The Spirit of Law*, Pennod XIX ('How this Union of Religion, Laws, Manners, and Customs, among the Chinese, was effected').

³³ *OG, III, tt. 87, 88*; Confucius, *The Analects (c.500 CC)*, Section 1, Part 1, ar <<http://classics.mit.edu/Confucius/analects.mb.txt>> [cyrchwyd 8 Tachwedd 2022]; Ecsodus, 20: 11; Llyfr Dewteronomiwm, 5: 15.

³⁴ *OG, III, t. 88.*

greadigaeth, yn blanhigion ac anifeiliaid.³⁵ Yr oedd gan Pennant, fel naturiaethwr blaenllaw, gysylltiadau agos ag eraill megis Linnæus, fel y gwelsom, a'r Ffrancwr George-Louis Leclerc, Comte de Buffon (1707–88) – dau a roddai sylw cynyddol i'r diffyg hwn gan ddefnyddio adroddiadau teithwyr i wledydd pellennig i lunio systemau rhesymegol yn didoli pobloedd y byd.³⁶ Dangosodd ei gyhoeddiadau naturiaethol amlwg ef ei hunan, o'r *British Zoology* ymlaen (caed pedwar argraffiad rhwng 1763 ac 1777), bwysigrwydd gwyddoniaeth dosbarthu i Pennant; ac erbyn dechrau'r 1770au, yr oedd yntau wedi troi ei sylw at nodweddion corfforol pobloedd dramor. Mewn llythyr hirfaith at ei gyfaill, y barnwr Daines Barrington (1727/8–1800), bu'n pwysu a mesur y dystiolaeth dros hawlio bod hil o ddynion eithriadol o dal yn byw ym Mhatagonia, De America, a rhoddodd ddisgrifiadau ohonynt ar sail lliw eu croen a natur eu gwallt, yn ogystal â nodweddion ethnograffig megis eu gwisg a'u harferion.³⁷ Wrth lunio 'Outlines of the Globe' bron i ugain mlynedd yn ddiweddarach, yr oedd trafod hil yn nodwedd flaenllaw iawn mewn rhai cyfrolau. 'I now enter on a part of Africa inhabited by a race of men different in feature, hair, and color from all the rest of the world ...' yw geiriau agoriadol y testun cymhleth sy'n disgrifio Gorllewin Affrica, gan fynd ymlaen i ystyried y rhesymau dros liw croen a nodweddion corfforol eraill brodorion y rhan hon o'r byd.³⁸

Rhoddwyd seiliau i ddiddordeb Linnæus, Buffon, Pennant ac eraill i ddosbarthu pobl ar seiliau corfforol gan ymdrechion gwŷr megis y teithiwr a'r meddyg François Bernier (1620–88). Dangosai 'Nouvelle Division de la Terre' (1684) Bernier ddatblygiadau yn y ddealltwriaeth ddeallusol o ddosbarthiad o ran hil drwy symud oddi wrth hanes sanctaidd at hanes byd natur, yn y lle cyntaf ac, at hynny, oddi wrth dacsonomeg di-reol y Dadeni at ymdrechion diweddarach i ddosbarthu'n systematig, yn arddull meddylwyr megis Bacon a Descartes.³⁹ Hawliodd Bernier bod pedwar neu bum math neu hil ymhlith dynion y gellid eu cymryd fel seiliau i wneud rhaniad newydd o'r byd: yr hil 'gyntaf' (a, thrwy oblygiad, yr orau a'r fwyaf nodedig); Affricanwyr Du; hil dwyrain a gogledd-ddwyrain Asia; a'r Lapiaid.⁴⁰ Yr oedd y Tsieineaid, i Bernier, yn perthyn i'r drydedd o'r hiliau hyn ac, er bod ei ddisgrifiad ohonynt yn cynnwys cyfeiriadau diraddiol at eu hysgwyddau llydan, natur fflat eu hwyneb, eu trwynau bychain, eu 'llygaid-mochyn bychain, dwfn', a'u tair locsen ('de larges épaules, le visage plat, un petit nez écaché, de petits yeux de porc, longs & enfonces, & trois poils de barbe'), barnai eu bod, yn eu hanfod yn 'wyn' o ran lliw eu croen ('veritablement

³⁵ Gw. Nicholas Hudson, 'From "Nation" to "Race": The Origin of Racial Classification in Eighteenth-Century Thought', *Eighteenth-Century Studies*, cyf. 29, rhif 3 (1996), 247–64.

³⁶ Ibid., yn enw. 252. Am ymweliad Pennant â Buffon yn ei gartref yn Montbard yn ystod ei daith i'r Cyfandir, gw. Pennant, *Tour on the Continent 1765*, tt. 38–9; ac am ymdrechion Linnæus i ddosbarthu *Homo sapiens*, gan gyferbynnu yn ôl ymddangosiad ac ymddygiad ('European ... Governed by laws. ... Asiatic ... Governed by opinions'), gw. Elizabeth A. Sutton, *Early Modern Dutch Prints of Africa* (Abingdon, 2012), t. 97.

³⁷ Thomas Pennant at Daines Barrington, 28 Tachwedd 1771, yn llsgr. LIGC 12706E, tt. 77–91. Cyhoeddwyd y llythyr yn ddiweddarach fel Thomas Pennant, *Of the Patagonians* (Darlington, 1788), tt. 1–15.

³⁸ Thomas Pennant, 'Outlines of the Globe: Nigretian Africa', P/16/11, t. 1; Ffion Mair Jones, 'O blaid diddymiaeth?: Adroddiad Thomas Pennant ar Orllewin Affrica', cyflwyniad anghyhoeddedig mewn seminar arlein, 'Caethwasiaeth, Diddymiaeth, a thu hwnt: Adroddiad Thomas Pennant ar Orllewin Affrica', 1 Rhagfyr 2022.

³⁹ Siep Stuurman, 'François Bernier and the Invention of Racial Classification', *History Workshop Journal*, rhif 50 (2000), 1–20, yn enw. 3. Ymddangosodd traethawd Bernier, 'Nouvelle Division de la Terre', yn y *Journal des Sçavans 1684*, XII (24 Ebrill 1684), 148–55.

⁴⁰ Stuurman, 'François Bernier and the Invention of Racial Classification', 4.

[sic] blancs').⁴¹ Gellid dadlau bod y safbwynt amwys hwn – rhwng tebygrwydd o ran lliw croen a dieithrwch y nodweddion eraill – yn nodweddu dealltwriaeth Pennant o'r hil Tsieinaidd, ynghyd â'r grwpiau eraill sy'n ennyn ei sylw yn yr adroddiad hwn. Y mae'r rhain yn cynnwys y concwerwyr Manshw o Tartaria, y diriogaeth i'r gogledd o Tsieina a ddaeth i rym yno yn yr ail ganrif ar bymtheg, gan drechu'r Tsieinaid 'Han' brodorol; a'r cymdogion ar benrhyn cyfagos Corea.

Gwelir disgrifiad ar sail hil yn yr adran o destun Pennant sy'n trafod brodorion Corea, gan geisio'u lleoli rhwng dwy hil yr 'Han' a'r Manshw ar dir mawr Tsieina:

The natives of the northern part [of Korea] are a fine race of men, tall, robust, active, and without any of the Tartarian aspect. Those of the southern part resemble the Chinese, of a sallow complexion, and tender constitutions.⁴²

Dygir ynghyd yma ragdybiaethau ynghylch ymddangosiad y Tartariaid / Manshwiaid, heb eu disgrifio, a hynny y mae'n bur debyg gan fod eu nodweddion yn bur hysbys yn gyffredinol. Fe'u cynrychiolir yn adroddiad Pennant fel gorchyfgwyr ciaidd a adawodd olion dinistr eu concwest ar hyd a lled Tsieina. Yr oedd eu hôl yn fyw iawn yng ngwaith Johan Nieuhof (1618–1672), a gyhoeddwyd gyntaf gan yr argraffwr o Amsterdam, Jacob van Meurs (1619/1620–c.1680) yn 1665, gyda chyfiethiadau Saesneg gan John Ogilby (1600–76) yn ymddangos yn 1669 ac 1673 o dan y teitl *An embassy from the East-India Company of the United Provinces, to the Grand Tartar Cham Emperor of China*. Teithiodd Nieuhof gyda llysgenhadaeth o'r Iseldiroedd o Guangzhou (Canton) i Beijing (Peking) rhwng 1655 ac 1657, mewn cyfnod pan oedd effeithiau concwest y 1640au cynnar yn dal i'w teimlo'n gryf.⁴³ Cyfeiriodd Pennant at Tongling (Tong-lyu), lle gwelid olion anrhaith y Tartariaid yn y goncwest ddiweddar hon ('Tong-lyu bears numerous marks of the ravages of the Tartars'), a hefyd at y dinistr a achoswyd yn Nanjing (Nanquin) gan oresgyngiad blaenorol yn 1127 ('much is now a waste, and retains all the marks of the Tartarian fury').⁴⁴ I Pennant, yr oedd y gwyntoedd oer y tystiwyd iddynt ar wastatir Pamir (Pamer) gan y fforiwr cynnar o'r Eidal, Marco Polo (1254–1324), ynghyd â thiriogaeth anial, dywodlyd ('Tartarian deserts') ac ehangder daeraryddol Tartaria fel petaent yn ategu caledwch a garwder y Tartariaid eu hunain.⁴⁵ Yr oedd eraill, mor ddiweddar â'r 1770au a'r 1780au, yn gweld Tartaria fel tarddle barbariaid gwyllt, a heidiai i diriogaethau mwy gwaraidd y gwastadeddau o'u cwmpas, gan eu hanrheithio a'u hysbeilio.⁴⁶ Dadlennir gan astudiaeth Osterhammel bod newid yn y canfyddiad o'r Tartariaid yn ystod y ddeunawfed ganrif, serch hynny, wrth i deithwyr ddychwelyd o'u tiriogaeth, â'r naturiaethwr Johann Georg Gmelin (1709–55), er enghraifft, yn adrodd ar ôl taith ar draws mynyddoedd Ural a thrwy orllewin Siberia, nad oeddynt

⁴¹ Ibid., 5; Bernier, 'Nouvelle Division de la Terre', 151. Ymhellach ynghylch ymdriniaeth Bernier â lliw croen a'r flaenoriaeth a rydd i'r hil 'gyntaf', gw. Stuurman, 'François Bernier and the Invention of Racial Classification', 4–5.

⁴² *OG*, III, t. 167.

⁴³ Donald F. Lach ac Edwin J. Van Kley, *Asia in the Making of Europe. Volume III. A Century of Advance. Book Four: East Asia* (Chicago, 1993), t. 1662. Ymhellach ynghylch taith Nieuhof, gw. Map: Johan Nieuhof yn Tsieina.

⁴⁴ *OG*, III, tt. 140–1. Am goncwest 1127, gw. Michael Wood, *China: A Portrait of a Civilisation and its People* (London, 2020), yn enw. tt. 218–21.

⁴⁵ *OG*, III, tt. 172, 175. Am daith Marco Polo, gw. Map: Marco Polo.

⁴⁶ Osterhammel, *Unfabling the East*, t. 304.

hanner mor frawychus â'r disgwyl o'u cyfarfod yn y cnawd.⁴⁷ Cyfleodd Pennant, yntau, ddarlun deublyg o'r bobloedd hyn: yr oedd y Tartariaid a oresgynnodd Tsieina yn yr ail ganrif ar bymtheg bellach mor ferchetaidd eu hymarweddiad â'r Tsieineaid eu hunain, meddai – teyrnged bur grintachlyd, heb os ('The Tartars compose most of the garrisons, but are now grown as effeminate as the Chinese themselves, and very little superior to the native soldiery').⁴⁸ Gyda'r gair amhendiant hwn o ganmoliaeth, cawn ei farn ynghylch y Tsieineaid yn ogystal, barn yr ymhelaethir arni wrth ddisgrifio'n fanylach nodweddion y gwryw a'r fenyw Tsieineaid nodweddiadol yn ddiweddarach yn yr adroddiad.⁴⁹ Rhoddir sylw i nodweddion ethnograffig pobloedd Tsieina yn ogystal drwy gyfrwng delweddau ar ffurf printiau a gynhwysir yng nghorff disgrifiad Pennant, sy'n darlunio dynion a menywod wedi'u gosod mewn grwpiau ethnig amrywiol, gan gyfleu nodweddion eu gwisg a'u hymddygiad.⁵⁰

Darluniau a gyhoeddwyd yn adroddiad Nieuhof o'i daith i Tsieina yw'r rhan fwyaf o'r printiau a ddefnyddiwyd gan Pennant a gellir eu darllen yng nghyd-destun delweddu pobloedd dramor mewn teithlyfrau yn yr Iseldiroedd o ddechrau'r ail ganrif ar bymtheg ymlaen. Dangosodd Elizabeth A. Sutton sut yr oedd artistiaid y cyfnod hwn yn yr Iseldiroedd yn darlunio nodweddion Affricaniaid drwy gyfundrefn o ddsbarthu yn ôl hil, ond gan bwysleisio arferion yn hytrach na lliw croen: dynion a menywod gwyn sydd i'w gweld yn y printiau a ymddangosodd o weisg yn Amsterdam y cyfnod hwn.⁵¹ Yn ddiweddarach, yn ystod y ddeunawfed a'r bedwaredd ganrif ar bymtheg, y daeth ffactorau corfforol yn flaenllaw, wrth i Ewropeaid resymolegu'r gwahaniaeth rhyngddynt eu hunain a phobl Affrica, gan bwysleisio israddoldeb Affricaniaid.⁵² Dibynnai artistiaid yr ail ganrif ar bymtheg ar ddiwylliant gweledol yr Iseldiroedd i awgrymu ystyron moesol cyfarwydd mewn eiconograffeg Ewropeaidd a israddolai bobloedd Affrica, ac wrth i ddelweddau gael eu cylchredeg a'u hailadrodd câi'r ystyron hyn eu cadarnhau, eu caledu, a'u dilysu.⁵³ Am resymau y gellir eu gweld yn system 'Cadwyn Fawr Bodolaeth' Aristotle ac yn nosbarthiadau Bernier (gw. uchod), nid oedd pobl Tsieina a'r gwledydd cyfagos yn destun i'r fath brosesau o ddarostwng – yr oeddent yn uwch i fyny ar lefelau'r raddfa – ac nid yw'r rhagdybiaethau negyddol mor amlwg yn y printiau ethnolegol a gyhoeddwyd i gydfynd ag adroddiad Nieuhof o'i daith o'r herwydd.⁵⁴ Yn yr un modd, y mae'r pwyslais ymwithiol a welwyd ar hil pobloedd frodorol Gorllewin Affrica yng ngwaith Pennant (gw. uchod) yn gwrthgyferbynnu â'r sylw cymharol ysgafn i'r pwnc yn ei waith ar Tsieina, a hynny'n adlewyrchu rhagfarnau cyffredin y cyfnod modern cynnar a'r ddeunawfed ganrif.

(iii) Y Jeswitiaid: Rhwng edmygedd a drwgdybiaeth

Os yw rhagdybiaethau ynghylch ethnigrwydd ac, i raddau llai, hil, yn un nodwedd negyddol yn yr ymateb i Tsieina a'i phobl, y mae rhagfarn yn erbyn dulliau addoli'r Tsieineaid yn enghraifft arall sy'n codi ei phen yn rhannau agoriadol adroddiad Pennant a, thrachefn, yn cael ei chefnogi gan yr elfen weledol yn y llawysgrif. Wrth ymafael â'r pwnc hwn, gwnaeth

⁴⁷ Ibid., t. 305.

⁴⁸ *OG*, III, t. 100.

⁴⁹ Ibid., t. 101.

⁵⁰ Gw. Atodiad Delweddau, rhif 2 (i) a (iii).

⁵¹ Sutton, *Early Modern Dutch Prints of Africa*, tt. 90–1. Am enghreifftiau o ddarluniau, dyddiedig 1596, 1602, ac 1617, gw. *ibid.*, Platiâu 4.2–4.4, 7.1.

⁵² Ibid., t. 91.

⁵³ Ibid., t. 140.

⁵⁴ Ibid., t. 90; Arthur Lovejoy, *The Great Chain of Being* (Cambridge, MA, 1936), tt. 329–31.

Pennant ddefnydd sylweddol o lais arall o Ffrainc yr Ymoleuedigaeth, llais yr hanesydd Jeswitaidd Jean-Baptiste Du Halde (1674–1743). Tsieina oedd canolbwynt diddordeb Du Halde er nad ymwelodd â'r wlad erioed – nodwedd sy'n ei ddwyn i gategori'r teithiwr-obbellter, fel Pennant. Daeth Du Halde yn arbenigwr pellgyrhaeddol ei ddylanwad ar y pwnc drwy olygu dros ddeng cyfrol ar hugain o lythyrau oddi wrth genhadon Jeswitaidd yn Tsieina, y *Lettres Édifiantes et Curieuses*, rhwng 1711 a blwyddyn ei farwolaeth, ynghyd â chyhoeddi yn ei enw ei hun waith pedair cyfrol yn seiliedig ar dystiolaeth y cenhadon, *Description géographique, historique, chronologique, politique, et physique de l'Empire de la Chine et de la Tartarie chinoise* ym Mharis yn 1735. Ailgyhoeddwyd y *Déscription géographique* yn yr Iseldiroedd y flwyddyn ganlynol; yn Lloegr ymddangosodd dau gyfieithiad yn fuan wedyn, ac o fewn cyfnod byr i'w gilydd. Ceir tystiolaeth, at hynny, o beth ymgiprys am y farchnad Seisinig rhwng John Watts, cyhoeddwr cyfieithiad Richard Brookes yn 1736, ac Edward Cave a gyhoeddodd ei gyfieithiad ef rhwng 1738 ac 1741, ffaith sy'n awgrymu graddau'r diddordeb yn y gwaith hwn ym Mhrydain.⁵⁵ O graffu ar ddefnydd Pennant o Du Halde, daw'n amlwg mai fersiwn Cave a ddaeth i'w ddwylo ef. Gwnaeth ddefnydd helaeth ohono; yn wir, ceir deg ar hugain o gyfeiriadau yn enwi Du Halde yn glir, gan gydnabod yr hyn a ddywedodd y Ffrancwr am fapio a mesur tir Tsieina, am ddulliau trafndiaeth, am ystyriaethau masnachol, am gyraeddiadau ymerawdwr hanesyddol Tsieina, am elfennau ar y dirwedd a pherthynas ei phobloedd â hi, am brosesau cynhyrchu a gwerth cynnyrch, ac am ymchwiliadau i fyd natur yr ymerodraeth. Y mae'r meysydd hyn oll yn adlewyrchu ehangder profiad y Jeswitiaid yn Tsieina dros gyfnod o bron i dri chan mlynedd rhwng 1584 at 1774.⁵⁶ Ar y mater canolog i Du Halde a'i gyd-Jeswitiaid, sef crefydd, y mae cydnabyddiaeth Pennant yn llai eglur. Serch hynny, o chwilota'n fanylach gwelir bod y ddibyniaeth yn gref yma, hefyd: er enghraifft, llais Du Halde sydd y tu ôl i'r disgrifiad a rydd Pennant o'r Bod Mawr yng ngolwg y Tsieineaidd, 'Tyen, or the Supreme Being', a'u haddefiad i fyw â'i ddeddfau ef wedi'u llingerfio ar eu calonau ('professed to live according to his laws engraven on their hearts').⁵⁷ Fel Du Halde, hefyd, ceisiodd Pennant leoli dechreuadau'r grefydd hon yng nghyd-destun Iddewiaeth, mam-grefydd Cristnogaeth, gan hawlio i grefydd gyntaf, bur, y Tsieineaidd eu cyrraedd drwy eu hymerawdwr cyntaf, Fo-hi, a'i cawsai oddi wrth y patriarchiaid.⁵⁸

⁵⁵ Jean-Baptiste Du Halde, *The general history of China: Containing a geographical, historical, chronological, political, and physical description of the empire of China, Chinese-Tartary, Corea, and Thibet*, 4 cyf. (London: J. Watts, [1736]); *idem*, *A description of the empire of China and Chinese-Tartary: together with the kingdoms of Korea, and Tibet*, 2 gyf. (London: J. Thomas for E. Cave, 1738–41). Am y cwffas rhwng crewyr y ddwy fersiwn, gw. John Watts, *Letter to the public, containing remarks on the blunders and inaccuracies of Mr Cave's translation of the history of China*, ([London], [1737?]). O ystyried dyddiad cyhoeddi gwaith Cave, y mae'r dyddiad 1737 a gofnodwyd yn betrus ar wefan Jisc yn debygol o fod yn rhy gynnar. Gw.

<<https://discover.libraryhub.jisc.ac.uk/search?title=Letter%20to%20the%20public%2C%20containing%20remarks%20on%20the%20blunders%20and%20inaccuracies%20of%20Mr%20Cave%27s%20translation%20of%20the%20history%20of%20China&rn=1>> [cyrchwyd 9 Tachwedd 2022].

⁵⁶ Florence C. Hsia, *Sojourners in a Strange Land: Jesuits and their Scientific Missions in Late Imperial China* (Chicago, 2009), t. 4.

⁵⁷ *OG*, III, t. 92. Cf. Du Halde, *A description of the empire of China and Chinese-Tartary* (Cave), I, t. 640, 'to live according to the Principles of the Law of Nature, engraven on their Hearts'. Am gyfatebiaeth arall amlwg cymharer *ibid.*, I, t. 641, 'all outward Adoration must fail in pleasing Tyen, if it does not proceed from the Heart, and is not animated by the inward Sentiments', ac *OG*, III, t. 92, 'no external adoration will be accepted unless it is attended with inward sentiments, and comes directly from the heart'.

⁵⁸ Du Halde *A description of the empire of China and Chinese-Tartary* (Cave), I, t. 132; *OG*, III, tt. 91–2.

Wrth ddatblygu ei drafodaeth ar grefydd yn Tsieina, y mae Pennant yn cyfodod purdeb Cristnogaeth a dysgeidiaeth Confucius ('the pure doctrines of Confucius')⁵⁹ ar y naill law, a chrefyddau a fewnforiwyd i Tsieina o India, ar y llaw arall, yn Hindŵaeth â'i mytholeg afradlon ('extravagances of the Hindoo mythology') ac yn Fwdhaeth â'i heilunaddoli ffaidd ('horrid').⁶⁰ Yma, drachefn, y mae elfen weledol yn atgyfnerthu'r testun yn y llawysgrif, gan gyflwyno delweddau cyffyrddadwy o eilunaddoliaeth. (Gw. Atodiad Delweddau, rhif 3 (ii).)⁶¹ Y mae trafodaeth Pennant ar Gristnogaeth gynnar yn Tsieina yn gymhleth a throfaus, serch hynny, ac fel petai'n asio'r ffydd Gristnogol y byddai ef, fel Ewropead, yn ei harddel â chredoau Dwyreiniol India a Tsieina. Yr oedd yn ymwybodol o ddarganfyddiad pwysig yn Xian yn 1625, drwy waith ysgolhaig Jeswitaidd arall, y polymath Athanasius Kircher (1602–80), athro mathemateg yn Rhufain ac awdur cyfrol nodedig ar hanes y Jeswitiaid yn Tsieina, a ragflaenai waith Du Halde. Cyhoeddwyd *China Monumentis ... Illustrata* Kircher yn Amsterdam yn 1667.⁶² Yn y gyfrol hon, nododd Kircher ymddangosiad cofeb farmor, ddeng troedfedd o hyd a phump o led, ac arni enwau cenhadon Cristnogol a hanes eu dyfodiad i Tsieina yn y seithfed ganrif hyd at ddyddiad ei llunio, 783 OC. Gwnaed cyfieithiad o destun Syrieg gwreiddiol y gofeb gan Jeswitiaid a oedd yn Tsieina ar y pryd, a chyfleu'r wybodaeth drwy Kircher yn ôl i ddarllenwyr yn Ewrop.⁶³ Er bod y Cristnogion hyn wedi cael cychwyn llewyrchus i'w cenhadaeth Tsieineaidd, gan godi eglwysi a thaenu'r efengyl ymhlith y brodorion gyda chaniatâd yr ymerawdwr, ebyn y ganrif ddilynol, daethai ymerawdwr newydd i lywodraethu, a fynnodd gau pob mynachlog. Nid fel sefydliadau Cristnogol y disgrifiodd Pennant y crefydd-dai hyn, fodd bynnag, ond fel rhai delw-addolgar o eiddo'r 'Bonzees' a dilynwyr 'Fo or Fwe': yr oedd Cristnogaeth wedi'i llyncu gan grefyddau Indiaidd yr Hindŵaiaid a'r Bwdistiaid, rhai y gallai Pennant fwrw'i lach arnynt yn hunangyfiawn o safbwynt Gogledd-Fydol cyfforddus Ewrop yr Ymoleuedigaeth.⁶⁴ Er nad oes perthynas amseryddol synhwyrol, cyffelybodd Pennant dranc y ffurf newidiedig a llygredig hon ar Gristnogaeth i ffawd y mynachlogydd Catholig ym Mhrydain yn ystod teyrnasiad Harri VIII, cyn nodi bod hanes y bobl hyn (rhai ohonynt yn haeddu'u galw'n Gristnogion er mai fel 'Bonzees' y'u disgrifwyd gan ddogfennau swyddogol eu herlynwyr) wedi mynd ar ddifancoll ar ôl yr erledigaeth hon.⁶⁵ Un consesiwn i Gristnogaeth yn Tsieina, ac i allu Tsieina, felly, i

⁵⁹ *OG*, III, t. 167.

⁶⁰ *Ibid.*, tt. 93, 94. Cf. hefyd y cyfeiriad at y 'Bonzees, and the professors of the idolatry of Fo or Fwe' yn *ibid.*, t. 137.

⁶¹ Am yr Atodiad Delweddau a grybwyllir yma ac mewn cyfeiriadau pellach, isod, gw.

<https://curioustravellers.ac.uk/wp-content/uploads/2023/02/Atodiad_Delweddau.pdf>.

⁶² Hsia, *Sojourners in a Strange Land*, t. 33. Y mae'r gwaith yn agor gydag adroddiad cynhwysfawr o'r darganfyddiad yn Xian. Gw. Athanasius Kircher, *China Monumentis, qua sacris qua profanis ... Illustrata* (Amstelodami, 1667), cyfieithwyd gan Charles D. Van Tuyl ([Oklahoma, 1986]), tt. 1–42, ar <<https://htext.stanford.edu/content/kircher/china/kircher.pdf>> [cyrchwyd 7 Rhagfyr 2022].

⁶³ Gw. *OG*, III, t. 94, a'r cyfeiriad yno at wybodaeth bellach yn 'Renaudot's account of India and China'. Gw. Eusebius Renaudot, *Ancient accounts of India and China: by two Mohammedan travellers. Who went to those parts in the 9th century* (London, 1733).

⁶⁴ *OG*, III, t. 94. Cymharer trafodaeth Edward Said o agweddau anwybodus tuag at Islam a'u gafaelgarwch ar y meddylfryd Ewropeaidd ('There was a Christian picture in which the details ... were abandoned as little as possible, and in which the general outline was never abandoned. ... Christian opinion was an erection which could not be demolished, even to be rebuilt'). Er gwaethaf seciwlaiddio cynyddol yn Ewrop yn y ddeunawfed ganrif, ni ddadwneuthpwyd hen batrymau crefyddol hanes a ffawd dynoliaeth. Edward W. Said, *Orientalism: Western Conceptions of the Orient* (1978; London, 1991), tt. 60–9, 120–1; ac yn dyfynnu Norman Daniel, *The Arabs and Medieval Europe* (London, 1975), t. 252.

⁶⁵ *OG*, III, tt. 94–5. Fel yn hanes mynachlogydd Prydain yr unfed ganrif ar bymtheg, difrodwyd nifer sylweddol o dai gwrywod a benywod crefyddol, gan adennill eu tiroedd a'u cyllid i'r pwrs brenhinol, nododd Pennant.

gynnal Cristnogaeth yn ei phurdeb, yw'r gefnogaeth a rydd Pennant i wirionedd y dystiolaeth a gyflwynwyd gan Kircher a'r Jeswitiaid. Hawliwyd gan rai, yn eu plith y dylanwadol Voltaire, mai ffugiad dibwynt a seithug gan y Jeswitiaid oedd hanes cofeb Xian ('a most useless and unavailing forgery').⁶⁶ Ymatebodd Pennant yn bendant i'r honiad hwn: 'There is no doubt of the authenticity', meddai.

Y mae parodrwydd Pennant i ddibynnu ar dystiolaeth y Jeswitiaid Ffrengig yn achos cofeb Xian yn dyst i'w agwedd wyddonol, empeiraidd tuag at y dystiolaeth oedd ar gael iddo. Mewn manau eraill lle y mae'n rhoi sylw i'r genhadaeth Jeswitaidd i Tsieina, ceir cysgodion rhagfarn nodweddiadol ei gyfnod yn erbyn y sect hon ochr yn ochr ag edmygedd eglur o'u gwaith yno. Gweler, er enghraifft, y disgrifiad o ymdrechion diflino'r cenhadon cyntaf i gael mynediad i Tsieina, peth a barhâi i fod yn her i arweinwyr yr ymerodraeth Brydeinig, ddau gan mlynedd yn ddiweddarach, fel y gwyddai Pennant yn dda:

Valignon, superior general of the order of the mission of India, resident at Macao, burning with zeal for the great design, selected three of his society for the purpose, *Roger of Naples, Passio of Bologna, and Ricci of Macerata*. The last as a man of superior abilities, who with his two brethren had rendered themselves masters of the Chinese language at Goa, before they began their mission. They entered on it in the year 1583. After several unfavorable essays, Ricci found his way to the court; he had all the art and insinuation of his order; a noble air, great sweetness of tempo, and an extensive knowledge of the sciences, particularly of the mathematics.⁶⁷

Ynghyd ag edmygedd at feistriolaeth y cenhadon o Tsieiniog a chydabyddiaeth o'u parodrwydd i frwydro yn erbyn rhwystredigaeth eu methiannau niferus i gael mynediad i'r wlad, ceir darlun yma o lwyddiant y galluocaf ohonynt, Matteo Ricci (1552–1610). Daeth y disgrifiad o Ricci yn uniongyrchol o destun Du Halde, o'r cyfeiriad at ei allu mewn Tsieiniog a mathemateg hyd at yr adleisio geiriol wrth sôn am ei nodweddion personol ('P. Ricci especially attracted a great value for his Person, by the Sweetness of his Temper, by his easy Behaviour, and by an Air that had something in it irresistibly insinuating; but above all, his Skill in the Chinese Language, and the Mathematics', meddai Du Halde).⁶⁸ Wrth gyflwyno'r gair 'insinuation', sy'n deillio o 'insinuating' fersiwn Cave o'r testun ac yn gyfieithiad uniongyrchol o'r Ffrangeg, nid yw Pennant ond yn atgynhyrchu ieithwedd y Jeswitiaid eu hunain wrth ddisgrifio Ricci.⁶⁹ Serch hynny, Pennant yn unig sy'n uniaethu 'ensyniad' ('insinuation') ag 'art' – gair ag iddo sbectrw m o ystyron, yn gadarnhaol ac fel arall – ac

⁶⁶ Ibid., t. 94.

⁶⁷ Ibid., t. 96; ac ymhellach ynghylch taith Ricci Tsieina, gw. Map: Matteo Ricci. Ceir cyfeiriadau mynych yn y testun at gyfyngiadau ar fynediad Ewropeaid i Tsieina. Gw., e.e., *OG, III*, tt. 126, 129. Yr oedd llwyddiant cymharol Macartney yn y 1790au yn amlwg yn destun balchder i David Pennant, a ychwanegodd sawl cyfeiriad ato, llawer ohonynt at dystiolaeth y gellid ei diweddarau yn sgil y daith hon. Ibid., tt. 87, 99, 105, 115, 132, 134, 153, 155.

⁶⁸ Du Halde *A description of the empire of China and Chinese-Tartary* (Cave), II, t. 4.

⁶⁹ 'Le Pere Ricci sur-tout s'attira bien-tôt une grande considération, soit par sa douceur, par ses manieres aisées, & par je ne sçai quel air insinuant, dont on ne pouvoit guères se défandre; soit encore plus par son habileté dans la Langue Chinoise & dans les Mathématiques, qu'il avoit étudiées à Rome sous le célèbre Clavius'. Jean-Baptiste Du Halde, *Description géographique, historique, chronologique, politique et physique de l'Empire de la Chine et de la Tartarie chinoise*, 4 cyf. (Paris, 1735), III, t. 71.

mewn dyfyniad diweddarach lle y'i cyplysir ag 'artful' awgrymir ymhellach oblygiadau'r cysyniad hwn wrth ddisgrifio'r Jeswitiaid:

Another nation, eminent for extending their religion far and wide, could never effect, by the power of the sword, what this artful order did by insinuation, and by temporizing with the customs and manners of the people of whom they intended to make their advantages.⁷⁰

Cyferbynnir yma ddulliau cenedl arall, yr Arabiaid, o geisio mynediad i Tsieina â rhai'r cenhadon Ffrengig a goffawyd gan Du Halde. Methodd yr Arabiaid yn eu hymdrechion hwy i goncwerio gyda'u dulliau rhyfelgar nodweddiadol, meddai Pennant, lle llwyddasai'r Jeswitiaid i gymryd mantais ('make their advantages') ar y Tsieineaid drwy gyfaddawdu â'u dulliau hwy, arfer a bwysleiswyd yn weledol gan eu defnydd o eiconograffeg Tsieineaid ar eu gwisg. (Gw. Atodiad Delweddau, rhif 5.)

Yr oedd Ricci – ynghyd â Johann Adam Schall von Bell (1591–1666) a Ferdinand Verbiest (1623–1688) – yn rhan o driawd o Jeswitiaid a ddyrchafwyd yn nhestun Du Halde, yr unig dri y rhoddwyd sylw i'w dyddiau olaf ac i fanylion eraill yn eu cylch a awgrymai ysfa i'w mawrygu at ddibenion *vitae* Apostolaidd, a'r unig dri y cynhwyswyd portreadau gweledol ohonynt ganddo.⁷¹ Adlewyrchodd Pennant y sylw hwn yn ei ddewis o brintiau ar gyfer ei gyfrol: portreadau o Ricci a Schall, a chyfeiriad anuniongyrchol at Verbiest drwy'r print o'r gloch fawr yn Erfurt a gysylltid â'i enw. (Gw. Atodiad Delweddau, rhifau 5, 6, 7.) Talodd deyrnged i Ricci am ei strategaeth lwyddiannus i ennill Tsieineaid i'r ffydd Gristnogol – sef drwy gytgordio dulliau addoli Cristnogol dieithr ag arferion Conffiwsaidd y Tsienaid, thema gyfarwydd, fel y gwelwyd yn achos y gymhariaeth rhyngddynt a'r Arabiaid, uchod. Cydnabu, wedyn, ei hawl i gael ei ystyried fel sefydlwr a thad yr eglwys Tsienaid.⁷² Mewn anecdotau sy'n tarddu o waith Du Halde, dangosodd Pennant sut yr enillwyd ffafr ymerawdwr Tsieina gan olynwyr Ricci yn ogystal, nid gan genadwri ysbrydol ond gan eu gwybodaeth o'r celfyddydau ('arts').⁷³ Y nhw a gyflwynodd i Tsieina ganonau – y gynnu mawrion a allai eu hamddiffyn yn erbyn eu gelynion i'r gogledd o'r ffin, y Tartariaid.⁷⁴ Adroddodd Pennant hanes Verbiest yn bendithio'r canon a gyflwynwyd i'r ymerawdwr mewn seremoni a gyfunai arferion dau draddodiad, lle enwyd pob darn o'r canon ar ôl sant neu santes Gatholig mewn ymgais i foddhau ofergoeliaeth Tsieineaid.⁷⁵ Y mae'r enghraifft hon yn pwysleisio drachefn yr elfen o syncretiaeth Tsieineaid-Gristnogol fedrus a arferwyd mor llwyddiannus gan y Jeswitiaid, mewn cyferbyniad ag ymdrechion Prydeinwyr y 1790au i ennill ffafr yr ymerawdwr yn ystod Llysgenhadaeth Macartney.⁷⁶

⁷⁰ *OG*, III, t. 99.

⁷¹ Hsia, *Sojourners in Strange Lands*, tt. 142–3.

⁷² 'Ricci incontestably merited the title he received, of founder and father of the Chinese church', *OG*, III, t. 97. Am ddelwedd yn cynrychioli defodiaeth Gonffiwsaidd, gw. 'Festival or Sacrifice in Honour of Confucius', yn Pennant, 'China and Japan', yn yr AFG, P/16/17, rhwng tt. 116 a 117.

⁷³ *OG*, III, t. 97.

⁷⁴ *Ibid.*, t. 104.

⁷⁵ *Ibid.*, tt. 104–5. Gwelir y cyswllt rhwng y bendithio a'r ofergoeliaeth Tsieineaid yn amlycach yn y fersiwn wreiddiol. Gw. Du Halde, *A Description of the Empire of China and Chinese-Tartary*, cyf. Cave, I, t. 263.

⁷⁶ Gw. y drafodaeth ar ymdrechion aflwyddiannus y llysgenhadaeth i gyflwyno anrhegion i'r ymerawdwr Qianlong yn y gobaidh o ennill cytundeb masnach ffafriol â Tsieina yn Wood, *The Story of China*, tt. 380–9.

(iv) Ewrop yn erbyn Tsieina: Hanesyddoliaeth

Yn achos y canon, fel mewn achosion eraill yr oedd y Jeswitiaid ynglŷn â nhw, gallai Pennant honni bod Ewrop wedi rhagflaenu'r Tsieineaid fel dyfeiswyr. Nid dyma'r drefn bob amser yn yr adroddiad, serch hynny. Y mae cymharu dyddiadau datblygiadau yn thema gyson, â'r Tsieineaid yn ennyn dro ar ôl tro edmygedd am eu blaengarwch fel dyfeiswyr gan lais Ewroganolog Pennant, sy'n tynnu'n drwm ar waith Kircher yn hyn o beth.⁷⁷ Dyfeisiwyd celfyddyd argraffu yn ystod teyrnasiad yr ymerawdwr Ming-Tsong, tua'r flwyddyn 904 OC, meddai Pennant, dros bum can mlynedd cyn ei darganfod gyntaf yn Ewrop.⁷⁸ Nid yn unig fe'i dyfeisiwyd ond yr oedd gan y gelfyddyd argraffu Tsieineaid fanteision dros yr un a arferid yn Ewrop: 'They trace the types through the written copy on blocks of wood; so never have occasion to break the press, as we do in our quarter of the globe'.⁷⁹ Yr oedd yr un blaengarwch i'w weld mewn meysydd meddygol – yn benodol yn nealltwriaeth y Tsieineaid o gylchrediad y gwaed, 'long before the Europeans' – a gallai Pennant dynnu cymhariaeth ystyrion rhwng pryderon yr ymerawdwr 'Kam-hi' (sef Kangxi; 1654–1722) ynghylch salwch a eilw 'the distemper' a'r ofn a berid yn Ewrop gan y pla, pryderon a wnâi ymdrechion Kangxi i frechu'i boblogaeth yn bolisi doeth, blaengar a chwbl ddealladwy.⁸⁰

Y mae'r ymdriniaeth ag amser hanesyddol sy'n cymharu Ewrop a Tsieina yn gymhleth mewn manau, serch hynny. Mewn trafodaeth sy'n agor drwy gydsynio â honiad y Tsieineaid bod eu cenedl hwy yn ddatblygedig ymhell o flaen cenedloedd Ewrop, y mae dull Pennant o leoliad cysyniad yr anwar ('savage') yn amwys. Mewn astudiaeth arloesol yn trafod perthynas Ewrop a'r Dwyrain, dangosodd Dipesh Chakrabarty mor ganolog i draddodiad deallusol y Gorllewin yw hanesyddoliaeth ('historicism'), lle mynnir bod Ewrop 'fodern' ar y blaen, a gweddill y byd yn ei dilyn o hirbell.⁸¹ Lle caniateid gan feddylfryd y Gorllewin ei bod yn bosibl i eraill ymgyrraedd at fodernrwydd a'u dygai gyfuwch â phobl Ewrop, yr oedd mynnu nad oeddent eto yn barod i wneud hynny yn nodwedd ar draws hanesyddiaeth yr hegemoni Ewropeaidd yn ystod y bedwaredd ganrif ar bymtheg, i'w gweld yng ngwaith Karl Marx a meddylwyr Prydeinig y cyfnod fel ei gilydd.⁸² Y mae Pennant yn gwyrddroi'r darlun hwn, yn y lle cyntaf, gan adrodd bod y Tsieineaid yn 'a polished people ages before the nations of modern Europe had emerged from savage manners and profound ignorance'.⁸³ Datblygir y drafodaeth, fodd bynnag, drwy gynnig portread o'r modd y gwareiddiwyd y

⁷⁷ Gw. Kircher, *China Monumentis ... Illustrata*, cyf. Van Tuyl, tt. 210–12; ac Atodiad Delweddau, rhif 7. Am enghraifft o gymharu cronoleg 'tystiolaeth foesol', er cynnydd y ffydd Gristnogol yn Tsieina, gw. Thomas Jansen, 'Negotiating between Chinese Religious Beliefs and Christian Faith: Timothy Richard's (1845–1919) Understanding of "Faith" / xin 信 and Approach to Comparative Religion', yn Christian Meyer a Philip Clart (goln), *From Trustworthiness to Secular Beliefs: Changing Concepts of xin 信 from Traditional to Modern Chinese* (Leiden, 2023), tt. 309–39.

⁷⁸ *OG*, III, t. 102. Ni lwyddwyd i ddarganfod pwy oedd yr ymerawdwr Ming-Tsong.

⁷⁹ *Ibid.* Cf. hefyd y sylwadau ynghylch dyfeisio inc, hynny yn nheyrnas Ven-ti, tua 150 CC. *Ibid.*, t. 103.

⁸⁰ *Ibid.*; a cf. y drafodaeth ynghylch tarddiad gwyddoniaeth brechu sy'n ystyried ai'r Twrciaid a'i cyflwynodd i'r Tsieineaid neu fel arall. Cyfeithir 'distemper' fel 'afiechyd' yn *Geiriadur yr Academi* d.e. distemper¹; a gwelir defnydd o'r ffurf 'distemper' yn *Geiriadur Prifysgol Cymru* d.e. distemper, distemper, gyda'r cyfieithiad 'Anhwyldeb, anhymer'.

⁸¹ Dipesh Chakrabarty, *Provincializing Europe: Postcolonial Thought and Historical Difference* (2002; argraffiad newydd, Princeton, 2002).

⁸² Gw. *ibid.*, t. 7: ' "first in Europe, then elsewhere" ' ac, yng ngeiriau Marx, 'that the "country that is more developed industrially only shows, to the less developed, the image of its own future" '.

⁸³ *OG*, III, t. 91.

Tsieineaid gan sylfaenydd eu hymerodraeth, Fo-hi, a gydoesai â Heber a Phaleg (Eber a Peleg, tad a mab a ddisgynnai o Shem, gorwyr i Noa):

[Fo-hi's] subjects at that time were nearly in the state of nature; they fed on what they caught, ate it raw, drank the blood, and clothed themselves with the skins. He taught them to make fishing-nets and snares for birds, to rear domestic animals, and instructed them in various arts of life; and to soften the fierceness of his people, invented music, and the instrument *Kin*.⁸⁴

Y Tsieineaid, nid eu holynwyr mewn gwarineb yn Ewrop, sy'n cael eu cyflwyno mewn cyflwr o farbareiddiwch, yma, mewn darlun sy'n eu tebygu i ganibaliaid (yn blingo crwyn ac yfed gwaed). Dadsefydlogir y paroddrwydd i ddyrchafu'r genedl hon uwchlaw cenhedloedd y Gorllewin o'r herwydd. Y mae goblygiadau yn y portread hwn i'r ymdriniaeth â hil a welwyd yng ngwaith Bernier ac yn yr ysfa Ewropeaidd i oresgyn Tsieina, drwy deg a thrwy dwyll, ystyriaethau a drafodwyd uchod ac a ystyrir ymhellach yn yr adran ddilynol.

(v) Geirwiredd a thwyll: Tystiolaeth a phrofiad teithwyr Ewropeaidd i Tsieina

Fel y nodwyd eisoes, awdur yn llunio adroddiad o hirbell, heb erioed fod wedi ymweld â'r wlad, oedd y Thomas Pennant a luniodd yr adroddiad o Tsieina a'r rhannau eraill o'r byd a drafodir yn ei 'Outlines of the Globe'. Nid oedd ei ymdrechion yn hyn o beth yn newydd nac yn arloesol mewn cyd-destun Ewropeaidd. Fel y dangosodd Jürgen Osterhammel, cyhoeddwyd llw o antholegau yn adrodd hanes teithwyr gan rai nad oedd wedi mentro i grwydro eu hunain yn ystod yr Ymoleuedigaeth.²²⁰ Gwaith o'r fath oedd disgrifiad Du Halde o Tsieina, a luniwyd drwy addasu adroddiadau cenhadon Jeswitaidd, fel y nodwyd, ac yr oedd llw o rai tebyg iddo, yn gwneud casgliadau amrywiol yn hygyrch drwy gyfieithu deunydd; drwy gynnwys ffynonellau gwreiddiol, yn llythyrau, memoranda, ac adroddiadau swyddogol; a gan arddangos amryfal raddau o ymyrraeth wrth ymdrin â'u deunyddiau crai.⁸⁵ Yr oedd pwyslais ar deithio ynddo'i hun yn nodweddu rhai o'r gweithiau hyn, ag awduron a golygwyr yn hyrwyddo'r wybodaeth ddiweddaraf ar y naill law ac yn cyd-destunoli a dadlau dros hygredd adroddiadau hanesyddol ar y llaw arall.⁸⁶ Y mae'r gweddau hyn oll yn berthnasol i 'Tsieina' Pennant. Yn yr adran hon, ystyrir enghreifftiau o deithwyr o bum gwlad Ewropeaidd benodol – yr Eidal, Portiwgal, yr Iseldiroedd, Ffrainc, a Phrydain – gan archwilio perthynas y portread o'u teithiau â chwestiynau'n ymwneud â hygredd a thwyll. Ar yr un pryd, cawn weld pwysigrwydd croesgyfeirio at ei dystiolaeth ei hun i Pennant wrth iddo adeiladu hygredd a dibynadwydd ei lais awdurol.

Wedi rhoi sylw i nodweddion ymerodrol y Tsieineaid, i'w crefyddau, eu hymddangosiad, a'r defnydd a wneir ganddynt o'u hadnoddau naturiol, try trafodaeth Pennant at adroddiadau teithwyr ynglŷn â'r wlad, gan gychwyn â'r cynharaf un, yr wybodaeth a gludwyd i Augustus (63 CC–14 OC), ymerawdwr Rhufain, gan lysgenhadaeth y 'Seres', preswylwyr rhan ogleddol

⁸⁴ Ibid. Am gyfeiriad at yr offeryn 'Kin', gw. Du Halde, *A description of the empire of China and Chinese-Tartary* (Cave), t. 188: 'The Explanation of the PULSE, called the seven Pyau KIN is, like the Strings of the Instrument *Kin*'.

²²⁰ Osterhammel, *Unfabling the East*, tt. 220–31.

⁸⁵ Ibid., tt. 221, 222, 224, 225.

⁸⁶ Ibid., tt. 226, 229.

ymerodraeth Tsieina.⁸⁷ Eu dilynwyd nesaf hwy, ganrifoedd lawer yn ddiweddarach, oedd tad ac ewythr yr adnabyddus Marco Polo, a Marco ei hun, a aeth gyda'r gwŷr hŷn ar ail daith o Fenis i'r dwyrain yn 1271.⁸⁸ Disgrifiodd Pennant Marco fel sylwedydd gofalus a chywir ('a diligent and faithful observer'), gan gyfeirio at dystiolaeth y cyfieithiadau niferus a wnaed o'i deithiau, yn eu plith, un a gyhoeddwyd gan ei gyfaill Johann Reinhold Forster.⁸⁹ Nid sylw gwag oedd y ganmoliaeth i alluoedd Marco. Ym maes natur, gallai Pennant gymharu tystiolaeth y Fenisiad â'i ymchwil gyhoeddedig ef ei hunan: sylwodd Marco ar anifeiliaid o rywogaeth y mwsg, ar wartheg Tibet, ac ar ddefaid corniog, gwyllt, oll yn anifeiliaid a enwyd ac a ddisgrifiwyd yn wyddonol gan Pennant yn ei gyhoeddiad, *History of Quadrupeds*.⁹⁰ Gallai'r cyfatebiaethau cyfredol hyn ag adroddiad Marco Polo, a gadarnhawyd gan deithwyr mwy modern ym meysydd byd natur, economeg, ac mewn peuoedd eraill, ddilysu tystiolaeth a geirwiredd y Fenisiad, meddai.⁹¹

Yr oedd dadl ynghylch dilysrwydd tystiolaeth teithwyr y gorffennol yn neilltuol o gryf yn achos gwaith honedig y marchog crwydr Syr John Mandeville, y cyhoeddwyd hanes ei deithiau yn Asia a gogledd Affrica mewn gwaith di-enw yn Ffrainc, tua 1357, a'i gylchredeg yn eang mewn llawysgrifau amlieithog.⁹² Gwyddai Pennant amdano a rhoesai sylw iddo mewn cyhoeddiad blaenorol, sef *The Journey from Chester to London* (1782), lle y cysylltodd ef ag arysgrif yn eglwys St Albans, a honnai mai yno y'i claddwyd. Heriodd Pennant yr honiad hwn, gan fynnu yn hytrach mai St Albans oedd man geni'r marchog, ond mai yn Liège yng ngwlad Belg y'i claddwyd, hynny yn 1371.⁹³ Defnyddiodd Pennant destun yr adroddiad ynghylch Mandeville o *The Journey from Chester to London* air am air yn ei 'Tsieina', gan gynnwys y sylw ei bod yn debygol i'r marchog deithio cyn belled â Tsieina. Yn y ddau achos, amddiffynnwyd gwirionedd sylfaenol y teithiau drwy ddadlau bod unrhyw beth anghredadwy yn nheithiau Syr John yn deillio o ffugio diweddarach gan fynach (dosbarth y cysylltai Pennant anwiredd â hwy yn fynych); y nhw a wnaeth y teithiau'n llai credadwy drwy eu cymysgu â hanesion chwedlonol a straeon o waith Pliny, 'but still truth appears so frequently, that the authenticity of the ground work is by no means impaired', ategodd.⁹⁴ Yr oedd penderfyniad Pennant i ddyfynnu ei adroddiad cynharach ei hun ynghylch Mandeville yn dwysáu awdurdod ei sylwadau yn ei gylch: er bod yr adroddiad (yn y ddau achos) yn gorffen gyda darlun o goffád Syr John yn Liège yng nghwmni'r myneich a'u creiriau ('His knives, horse furniture, and spurs ... preserved at Liege by the monks, and shewn to strangers'), drwy amddiffyn geirwiredd sylfaenol ei dystiolaeth mewn dau leoliad – ar ei

⁸⁷ *OG*, III, tt. 109–10.

⁸⁸ *Ibid.*, t. 110–11; a gw. Map: Marco Polo.

⁸⁹ *Ibid.*, tt. 111–12; John [Johann] Reinhold Forster, *History of the voyages and discoveries made in the north* (London, 1786).

⁹⁰ Gw. Thomas Pennant, *History of Quadrupeds* (London, 1793), tt. 124–6 (Tibet [Musk]), tt. 24–8 (Grunting [Ox]), tt. 44–52 (Wild [Sheep]). Sylwer i'r gwaith hwn esblygu mewn tri cham, o'r *Synopsis of Quadrupeds* a ymddangosodd yn 1771, i ail argraffiad o dan y teitl *History of Quadrupeds* yn 1781, ac yna drydydd argraffiad 1793. Y mae'r ffaith bod cyfeiriadau manwl Pennant yn ei 'Tsieina' yn ein harwain at y trydydd argraffiad yn rhoi cadarnhad na allai'r llawysgrif sy'n cynnwys y gwaith hwn, 'China and Japan', yn yr AFG, P/16/17, ragflaenu dyddiad ymddangosiad y gyfrol honno o'r wasg, rywdro yn ystod 1793.

⁹¹ *OG*, III, t. 112.

⁹² Gw. *ODNB* d.e. Mandeville, Sir John (*supp. fl. c.* 1357).

⁹³ Thomas Pennant, *The Journey from Chester to London* (London, 1782), tt. 271–2.

⁹⁴ *Ibid.*, t. 271; ac *OG*, III, t. 112.

siwrnai wirioneddol ef ei hun drwy St Albans, ac yn ei 'Tsieina' cadair freichiau – gallai Pennant bwysleisio'i ffydd yn nhystiolaeth y gŵr hynod hwn.

Mewn manau eraill, gwelir ymdrech i sicrhau argraff o eirwiredd drwy groesgyfeirio'n agored at rannau eraill o 'Outlines of the Globe'. Gan ei fod am roi sylw i deithiau'r Mosgofiaid a'u minteioedd tua'r Dwyrain mewn cyfrol arall o'r gwaith, meddai Pennant, ni ddymunai eu trafod yn ei 'Tsieina'. Y mae croesgyfeirio fel hyn at gyfrolau eraill ei 'magnum opus' yn nodwedd a welir sawl gwaith yn 'Tsieina', ac yn fodd o dynhau'r ymdriniaeth a chysoni'r dystiolaeth ar draws holl barthau'r byd.⁹⁵ Gadawodd Pennant y Mosgofiaid o'r neilltu, felly, gan droi at yr ymweliad Ewropeaidd cyntaf i Tsieina ar y môr – glaniad y swyddog o Bortiwgal, Ferdinand Pedro Andrada (Fernão Pires de Andrade; bu farw 1552), ar ynys Tama. Darparwyd troednodyn yn cynnig mai Osorius (c.375/385–c.420 OC), yr hanesydd a'r diwinydd Rhufeinig, oedd ffynhonnell peth o'r wybodaeth hon, gan gynnwys yr enw ar yr ynys, fwy na thebyg.⁹⁶ Aeth yr angen i leoli'r ynys yn ddaeryddol â sylw Pennant, fel yn achos nifer o leoliadau eraill â'u henwau'n deillio o dystiolaeth gynnar. 'I believe this to be the same which Mr. Nieuhoff calls Heytamon, and possibly that on which Macao was built', meddai, gan gyfeirio at un o'i awdurdodau mwyaf diweddar a mwyaf dylanwadol wrth lunio 'Tsieina', yr Iseldirwr Johan Nieuhof.⁹⁷ Adeiladau Pennant, gyda'r cyfeiriad hwn at Nieuhof, hygrededd ei naratif, gan fynnu ar benodoldeb daearyddol.

Ac yntau'n llafurio mor gydwybodol i sicrhau geirwiredd a dibynadwyedd ei dystiolaeth, y mae'n bur eironig bod Pennant yn gweithio mewn cwmni mor frith o deithwyr blaenorol i Tsieina. Dengys ei adroddiad bod ymddygiad ystrywgar yn nodweddu llawer ohonynt, a gŵr a'i galwai ei hun yn George Psalmanazar (c.1679–1763), Ffrancwr o ran genedigaeth, yn ennill y wobwr fel yr arch-dwyllwr. Gan esgus mai Japanead ydoedd, glaniodd Psalmanazar yn Llundain, lle yr aeth ati i ysgrifennu hanes Formosa (Taiwan) a hyd yn oed i lunio gwyddor o iaith yr ynys, y cyfan yn gwbl ffug.⁹⁸ Adroddodd Pennant ei hanes gan ddangos beirniadaeth lem o dwyll Psalmanazar, ond yr oedd yn faddeugar tuag ato am iddo edifarhau yn ddiweddarach. Am ei hunangofiant barnodd yn raslon, 'I believe it to be a true narrative'.⁹⁹ Yr oedd Psalmanazar yn enghraifft eithafol o dwyll, ond ceir enghreifftiau pellach sy'n pwysleisio gwrthdaro tiriogaethol a diwylliannol, ynghyd â grym goresgynnol ac ymwithiol Ewropeaidd yn eu perthynas â Tsieina – oll yn elfennau sy'n herio'r argraff o onestrwydd y teithwyr. Perthnasol yn y cyswllt hwn yw hanes y Portiwgead Andrada, a grybwyllwyd uchod ac, yn fwy fyth felly, ei frawd Simon (Simão de Andrade), y naill yn sefydlu perthynas

⁹⁵ Ibid., t. 113. Am enghreifftiau pellach, gw. *ibid.*, tt. 105, 106, lle y croesgyfeirir at y defnydd o bowdwr gwn yn Thomas Pennant, *The View of Hindoostan. ... Western Hindoostan* (London, 1798), tt. 362-5; neu *OG*, III, t. 106, lle cyfeirir at y drafodaeth ar greu sidan yn adroddiadau 'Outlines of the Globe' ar Sbaen, yn yr AFG, P/16/8 a /9.

⁹⁶ *OG*, III, t. 113. Rhoddir yr wybodaeth mewn troednodyn yn y fersiwn argraffedig; yn y llawysgrif, y mae'n ymddangos yn y testun ei hun. Gw. Pennant, 'China and Japan', yn yr AFG, P/16/17, t. 140.

⁹⁷ *OG*, III, t. 113. Am enghreifftiau pellach o drafodaethau gan Pennant ynghylch enwau lleoedd anodd eu lleoli, gw. 'Tien-sing-foo ... the Quinsay of Marco Polo'; a 'Hierkin, the Carcham of Marco Polo', yn *ibid.*, tt. 146, 176; ac, ymhellach, Map: Marco Polo. Nieuhof oedd ffynhonnell Pennant yn y gyntaf o'r enghreifftiau hyn, drachefn.

⁹⁸ *OG*, III, tt. 151–3; George Psalmanazar, *An historical and geographical description of Formosa, an island subject to the Emperor of Japan* (London, 1704); ac *idem*, *An historical and geographical description of Formosa, an island subject to the Emperor of Japan: ... To which is prefix'd, a preface in vindication of himself from the reflections of a Jesuit lately come from China* (London, 1705).

⁹⁹ *OG*, III, t. 152; a Percy G. Adams, *Travelers and Travel Liars 1660–1800* (1962; New York, 1980), tt. 93–7.

gadarnhaol a manteisiol â'r Tsieineaid a'r llall yn ei chwalu.¹⁰⁰ Yn ddiweddarach, daeth cyfle i'r Portiwgeaid ailadeiladu perthynas dda â'r Tsieineaid yn dilyn ymddygiad cyfeiliornus Simon. Wedi iddynt gynorthwyo'r awdurdodau brodorol i drechu môr leidr ar ynys Macau, fe'u gwobrwywyd drwy roi caniatâd iddynt aros yn y ddinas o'r enw hwnnw.¹⁰¹ Cyfyngedig oedd eu hawliau, fodd bynnag: er bod peth llacio ar faterion crefydd a chyfraith, yr oedd goruchwyliaeth o du'r Tsieineaid yn parhau, gyda mandarin yn trigo yn eu plith a gorfodaeth arnynt i dalu treth flynyddol.¹⁰² Mewn hanesion fel hwn, y mae ymddiriedaeth yn pendilio rhwng anturwyr-wladychwyr a Tsieineaid brodorol, a daw hygrededd yn fater nid i Pennant fel awdur yn unig, ond i'r cymeriadau hanesyddol yr oedd yn ymwneud â hwy, hefyd. Yn eu tro, y mae eu llwyddiant (neu eu diffyg llwyddiant) hwy yn rhan o'r naratif sy'n gwneud Tsieina'n gyson gyfyngedig i'r Gorllewin o ran hygyrchedd, a phob cam gwag drwy ymddygiad amhriodol yn cael ei adlewyrchu ym mhresennol Pennant (ddiwedd y ddeunawfed ganrif) yn niffyg parodrydd Tsieina i agor ei drysau i'r byd. Dyma wedd ar adroddiad Pennant sy'n ateb moment hanesyddol ei lunio, felly; nid mewn cloddfa o hanesion hynafol y gweithiai, ond â'i synhwyrâu oll yn effro i effeithiau hanes ar y presennol.

Fel y Portiwgeaid, ymroes yr Iseldirwyr, cenedl arall flaengar mewn teithio'r byd a gwladychu tiriogaethau tramor, i dwyllo er mwyn sicrhau eu gafael ar ynys Formosa (Taiwan, heddiw). Cyfeirir gan Pennant at fotiff gwerin yn deillio o'r hanes ynghylch adeiladu Carthago gan y frenhines Dido, gan ddefnyddio'r hyn a elwir y 'mesur croen ych' – dull twyllodrus o hawlio tir y brodorion:

The Dutch made their first settlement for the benefit of the Chinese on the isle of Formosa; and deceitfully, under pretence of building a house, erected a strong fort, so as to command the entrance into the port they had fixed on; it was said that they made use of the stale Phœnician stratagem of the ox's hide, in the building of Byrsa, or the famous Carthage.¹⁰³

Cadwyd mewn llenyddiaeth taith a llenyddiaeth hanesyddol Ewropeaidd o'r unfed ganrif ar bymtheg hyd y bedwaredd ganrif ar bymtheg dystiolaeth o draddodiadau llafar brodorol ar draws y byd – o Sri Lanka i Cambodia, o Jakarta i Benrhyn Gobaith Da – a gofnodai ddefnydd o ystryw y 'mesur croen ych' gan wladychwyr Ewropeaidd.¹⁰⁴ Natur y tric hwn oedd bod y gwladychwyr yn gofyn i'r brodorion am yr hawl i feddiannu cymaint o'u tir ag y gellid ei orchuddio â darn o groen ych. Wedi i'r cais gael ei dderbyn, torrai'r gwladychwyr y darn o groen yn stribedi a'i daenu i greu'r cylch mwyaf posibl o ran ei gylchedd, ac yna'i hawlio'n diriogaeth drwy gytundeb. Dangosodd Andrew Newman bod y traddodiadau hyn yn rhan o archif byd eang – 'a set of accounts by colonized peoples attributing Dido's ruse to early modern European imperialists' – ac awgrymodd pa mor ganolog oedd y stori i'r gwladychwyr Ewropeaidd a gysylltir â hi – Portiwgeaid ac Iseldirwyr, aelodau o ymerodraeth

¹⁰⁰ *OG*, III, tt. 113–14.

¹⁰¹ *Ibid.*, tt. 114–15.

¹⁰² *Ibid.*, t. 115.

¹⁰³ *Ibid.*, t. 122.

¹⁰⁴ Gw. Andrew Newman, 'The Dido Story in Accounts of Early Modern European Imperialism – An Anthology', Department of English Faculty Publications. I. (2017), ar <<https://commons.library.stonybrook.edu/eng-articles/1>> [cyrchwyd 15 Tachwedd 2022].

Habsburg, yn bennaf (heb yr un cysylltiad â Ffrancwyr neu Brydeinwyr).¹⁰⁵ Y mae'n debyg mai ffynhonnell Pennant i'r stori oedd llythyr oddi wrth y Tad Jeswitaidd Joseph Anna-Marie de Moyria de Mailla, dyddiedig 1715, sy'n dangos defnydd o'r tric gan Iseldirwyr i dwyllo Japaneaid oedd wedi ymsefydlu o'u blaenau yn Formosa.¹⁰⁶ Gwladychwyr blaenorol, y Japaneaid, oedd cocynnau hitio'r ystryw hwn, felly, yn hytrach na phreswylwyr cynhenid Formosa, ond nid yw twyll y pwerau Ewropeaidd yn eu hymdrechion i gymryd mantais ar diriogaethau y tu hwnt i'w gwledydd eu hunain yr un tamaid yn llai o'r herwydd. Ni all yr hanes am y teiliwr Iquon a wenwynwyd gan ymerawdwr Tsieina, a'i fab Coxinga a ymosododd yn llwyddiannus ar wladychfa'r Iseldirwyr yn Formosa a'u gyrru oddi yno, ond cyfrannu ymhellach at yr argraff o'r llanast a wnaed wrth i Ewrop geisio gosod ôl ei throed ar Tsieina.

Yr oedd modd eithrio'r Ffrancwyr a'r Prydeinwyr o draddodiad twyllodrus y 'mesur croen ych', a gellir dweud bod 'Tsieina' Pennant i raddau'n cyflawni'r un swyddogaeth. Portiwegiaid ac Iseldirwyr yw'r rhai ystrywgar yn yr enghreifftiau uchod. I'r gwrthwyneb, ac eithrio'r Psalmanazar llysywennaidd, cenhadon yw ei Ffrancwyr, 'art' neu beidio; ac y mae'r adroddiad ynghylch cysylltiadau Tsieineaidd y Prydeinwyr, a oedd yn ddiweddar yn dechrau masnachu â'r Tsieineaidd, yn canolbwyntio ar yr empeiraidd, gan osod pellter rhwng Prydain a deiliaid ymerodraeth Habsburg.¹⁰⁷ Yr oedd yr un rhwystredigaethau o ran sefydlu masnach wedi llethu'r Prydeinwyr â'r Ewropeaid eraill, ac yn parhau i fod yn rhwystr; gweler darlun Pennant ohonynt oll wedi'u cyfyngu i borthladd Wampoo, lle nad oeddent fawr gwell na charcharorion, 'a sort of prisoners ... not to go beyond their bounds'.¹⁰⁸ Serch hynny, yr oedd modd adrodd yn galonogol ynglŷn â rhai agweddau ar berthynas fasnachol Prydain a Tsieina. Gwnaeth Pennant hynny'n gynhwysfawr mewn rhestr dros bedair tudalen o hyd (pedair ar ddeg yn y fersiwn lawysgrif) a gawsai oddi wrth ei gyswllt Thomas Fitzhugh (bu farw 1800), yn rhoi manylion ynghylch mewnfario ac allfario o borthladd Guangzhou (Canton) yn 1792.¹⁰⁹ Yr oedd gogwydd gobeithiol hefyd i drafodaeth Pennant o ddigonedd cynnyrch Tsieina – yn anifeiliaid a phlanhigion – fel yr adroddwyd amdanynt gan James Cunningham (1665–1709), meddyg a wasanaethodd y Saeson yn Zhoushan (Chusan) yn ystod 1697–9.¹¹⁰ Defnyddiodd Pennant lythyr a anfonwyd gan Cunningham at y Gymdeithas Frenhinol, gan adleisio'i dystiolaeth ynghylch helaethrwydd ynysfor Zhoushan ('cows, buffaloes, deer, goats, and wild hogs, and many kinds of esculent plants; and with the tea

¹⁰⁵ Ibid.; dyfyniad ar t. 4.

¹⁰⁶ Ibid., tt. 24–6, am destun y llythyr.

¹⁰⁷ *OG*, III, t. 115 ('The English came in late for their share of the Chinese trade').

¹⁰⁸ Ibid., t. 129.

¹⁰⁹ Ceir tystiolaeth i'r wybodaeth hon ddod i Pennant drwy lythyr oddi wrth Fitzhugh. Gw. ASSW, CR 2017/TP229, Thomas Fitzhugh at Thomas Pennant, 8 Mehefin 1792. Yr oedd Fitzhugh yn aelod o deulu a wnaeth eu bywoliaeth yn gweithio i Gwmni India'r Dwyrain, ac y mae'n bur debyg y byddai wedi cyfarfod Pennant yn ystod cyfnod a dreuliodd yn Llundain yn y 1770au, cyn iddo ddychwelyd i Tsieina. Gw. Kenneth Cozens, 'East London merchant networks in Asia: The Fitzhugh's, 1750–1800, East India Company, agents in Macao', ar <https://www.academia.edu/10873795/East_London_merchant_networks_in_Asia_The_Fitzhugh_s_1750_1800> [cyrchwyd 7 Tachwedd 2022], yn enw. t. 2.

¹¹⁰ Ynghylch Cunningham [Cuninghame], gw. Charles E. Jarvis a Philip H. Oswald, 'The collecting activities of James Cuninghame FRS on the voyage of *Tuscan* to China (Amoy) between 1697 and 1699', *Notes and Records of the Royal Society of London*, 69(2) (2015), 135–53, ar <[10.1098/rsnr.2014.0043](https://doi.org/10.1098/rsnr.2014.0043)> [cyrchwyd 15 Tachwedd 2022].

shrub on the tops of the hills').¹¹¹ At hyn, trafododd enghreifftiau o goed penodol a'u cynnyrch, gan ymdrechu'n ofalus i adnabod sbesimenau a ddarganfuwyd yn Tsieina mewn cyfeiriadau at rai cyffelyb a nodwyd gan naturiaethwyr blaenllaw mewn rhannau eraill o'r byd, yn eu plith Mark Catesby (1683–1749) a Linnæus yng Ngogledd America ac ym Mhenrhyn Gobaith Da.¹¹² Yn y dilysu empeiraidd dygn hwn, gellir gweld penderfyniad diildio Pennant i osod clogyn cadarnhaol dros ei ddarlun o Tsieina ar ran disgwrs gwyddonol, Ymoleuedig ei gyfnod a'i gyfandir.

(vi) Johan Nieuhof a'r daith o Guangzhou (Canton) i Beijing

O'r holl deithwyr y dilynodd Pennant eu harchwiliadau o Tsieina, yr un a enynnodd ei edmygedd a'i sylw mwyaf oedd yr Iseldirwr Johan Nieuhof. Neilltuodd dros ddeuddeg o dudalennau print i olrhain taith Nieuhof i fyny'r gamlas fawr o Guangzhou (Canton) i Beijing, gan ei ddisgrifio'n edmygus fel 'the only one who gives an account of the entire inland voyage from the south to almost the very north of the mighty empire'.¹¹³ Yr oedd ei fab, David, yn barod ar gyrion y troednodiaid yn y fersiwn print i ddiweddar darlun Pennant gyda chyfeiriad at Lysgenhadaeth Macartney, fel y'i disgrifiwyd yng nghyhoeddiad Syr George Staunton yn 1797, er nad oedd yn gwbl gywir disgrifio honno fel taith fewndirol ('inland voyage').¹¹⁴ Fel y gwelwyd eisoes, gwnaethai Pennant ddefnydd o Nieuhof i ddilysu tystiolaeth teithwyr eraill – yn fwyaf nodedig, Marco Polo – ac i leoli'n ddaearyddol, ffactor pwysig i'r adroddiad am Tsieina a atgyfnerthwyd gan ddefnydd o siartiau a mapiau yn y llawysgrif, ac amryfal gyfeiriadau at hydred a lledred y manau a enwai.¹¹⁵ I bwysleisio pwysigrwydd Nieuhof i'w adroddiad ei hun, cynhwysodd Pennant fanylion bywgraffyddol yn ei gylch, yn olrhain teithiau nid yn unig i Tsieina ond ar hyd arfordir Malabar yn ne orllewin India, i benrhyn Malacca (talaith ym Maleisia, heddiw), ac Ynysoedd Molwca yn nwyrain Indonesia, hyd at ei daith olaf, dyngedfennol, a'i gadawodd yn ddiflanedig ar ynys Madagascar, wedi'i lofruddio gan y brodorion, y mae'n bur debyg.¹¹⁶ Yn llawysgrif 'Tsieina', cynhwyswyd darlun o Nieuhof yn dwyn y teitl angladdol *The Effigies of M^r. Jn^o. Nieuhoff*. (Gw. Atodiad Delweddau, rhif 8).

Yr oedd parch Pennant i Nieuhof yn ddeublyg. Yn gyntaf, edmygai ei allu fel naturiaethwr. Y mae'r gymhariaeth rhyngddo a Du Halde yn ddadlennol yn hyn o beth. Er iddo ddefnyddio gwybodaeth naturiaethol o gyfrolau'r Ffrancwr Jeswitaidd yn helaeth, gallai Pennant fod yn bur ddibrisiol ohono, megis wrth gyfeirio at y pysgod a grybwyllodd ('Du Halde mentions

¹¹¹ *OG*, III, t. 115; ac am y ffynhonnell, gw. 'Part of two Letters to the Publisher from Mr James Cunningham, F.R.S. and Physician to the English at Chusan in China, giving an account of his Voyage thither, of the Island of Chusan, of the several sorts of Tea, of the Fishing, Agriculture of the Chinese, &c. with several Observations not hitherto taken notice of', *Philosophical Transactions of the Royal Society of London*, cyf. 23, rhif 280 (1702), ar <<https://royalsocietypublishing.org/doi/epdf/10.1098/rstl.1702.0023>> [cyrchwyd 15 Tachwedd 2022], 1201–9; yn enw. 1203.

¹¹² *OG*, III, t. 116.

¹¹³ *Ibid.*, tt. 134–47; dyfyniad ar t. 134.

¹¹⁴ *Ibid.*, n. Am ddisgrifiad o daith y llysgenhadaeth, gw. Wood, *China: A Portrait of a Civilization and its People*, tt. 378–89.

¹¹⁵ Am enghreifftiau o siartiau morwrol yn 'China and Japan', P/16/17, gw. A. Dalrymple, 'Coast of China' (1783), dalen rydd; 'Views on the Coast of Hainan by A. D. in Schooner Cuddalore 1760', rhwng tt. 162 ac 163; a W. H., 'Sketch of the Typa and Macao', rhwng tt. 164 ac 165. Y mae'r cyfeiriadau at hydred a lledred yn rhy niferus i'w henwi i gyd; cychwynnant yn y frawddeg gyntaf un, sy'n cynnig lleoliad Tsieina o gulfor Hainan, 'in north Lat. 20° 13" hyd at bellteroedd talaith Pe-che-li, 'in Lat. 41° 15"', yn *OG*, III, t. 87.

¹¹⁶ *Ibid.*, t. 135.

some curious species of fishes, but his descriptions want the perspicuity of a naturalist, so are unintelligible').¹¹⁷ Yr oedd Nieuhof ar dir uwch: 'his attention to several branches of natural history was very considerable; and he has given various plates of the fishes of the Indies, done with much accuracy', meddai Pennant, ond gan ategu'n nawddoglyd, 'considering the infant state of the science'.¹¹⁸ Yr ailbeth a'i denai at Nieuhof oedd ei allu fel arlunydd, nid yn unig o hynodion byd natur ond hefyd o olygfeydd mewn gwlad a thref, 'engraven from drawings done by his skilful pencil'.¹¹⁹ Dangosodd ysgrif olau gan Dawn Odell i ba raddau y datblygwyd darluniau pensel Nieuhof cyn eu hargraffu mewn cyhoeddiad a hyrwyddwyd gan ei frawd, Henri (Hendrik), fel y gwyddai Pennant, yntau.¹²⁰ Trawsnewidiwyd yr olygfa unigryw a feddai Nieuhof o dirwedd a threfi, fel teithiwr mewn cwch ar hyd camlesi, ac edrych o safbwynt gwahanol, agosach, yn yr ysgythriadau a gyhoeddwyd o dan arolygiaeth ei frawd, gan ychwanegu pobl yn mynd o gwmpas eu pethau at ddelweddau gwacach Nieuhof. Cyfraniad pellach gan ysgythrwyrt gartref yn yr Iseldiroedd oedd ychwanegiadau a wnaï'r golygfeydd yn fwy ecsotig, drwy ddefnyddio taclau o gyflenwad o ddelweddau Dwyreiniol oedd ar gael iddynt yn y Gorllewin. Adlewyrchai'r newidiadau hyn ymdrech hyrwyddwyr gwaith Nieuhof i sicrhau bod y golygfeydd yn cyfateb i ddisgwyliadau eu cynulleidfa Ewropeaidd.¹²¹

'I shall not attempt the description of this magnificent city,' meddai Pennant am Tong-tchoo-foo ar ben pellaf y rhwydaith o gamlesi a gysylltai begynau deheuol a gogleddol Tsieina, 'but will content myself with speaking to the eyes by the plates of Mr. Nieuhoff, which I believe represent with great fidelity the various cities, pagodas, and other buildings he passed by'.¹²² A oedd cyfiawnhad dros y fath ddibyniaeth? Y mae ymchwil Odell yn codi sawl cwestiwn ynghylch parodrwydd cyfforddus a diymholiad Pennant i dderbyn adroddiad Nieuhof. Gwelsom eisoes amwysedd y dystiolaeth weledol a gyhoeddwyd ar ffurf engrafiadau. At hyn, gwnaeth Nieuhof ddefnydd helaeth o waith teithwyr blaenorol i ddisgrifio ardaloedd nad ymwelodd ef ei hun â hwy, yn flaenaf y Jeswit Martino Martini (1614–61).¹²³ Er gwaethaf yr heriau hyn i ddibynadwyedd ei dystiolaeth (a oedd, i raddau helaeth y tu hwnt i'w reolaeth, gan nad ef fu'n gyfrifol am argraffu'i adroddiad), ymdrechasai Nieuhof i bwysleisio geirwiredd ei adroddiad o'i brofiad yn Tsieina, ac fe ymddengys bod ei waith yn hyn o beth wedi apelio at Pennant. Yn y lle cyntaf, gwadodd yr Iseldirwr fodolaeth y math o ryfeddodau a oedd wedi ennyn sylw disgrifwyr cynharach o Tsieina a dod yn rhan o ddisgwyliad darllenwyr ei wlad ei hun, a'u cyfnewid am wybodaeth fanwl, eglur, wedi'i mynegi mewn arddull ddiaddurn.¹²⁴ Un strategaeth a'i gwasanaethai wrth iddo ddadfeilio'r Tsieina ryfeddol oedd cyffelybu pensaernïaeth Tsieineaidd â'r hyn a

¹¹⁷ Ibid., t. 131.

¹¹⁸ Ibid., t. 135.

¹¹⁹ Ibid., t. 136.

¹²⁰ Dawn Odell, 'The soul of transactions: Illustration and Johan Nieuhof's Travels in China', yn Karel Bostoën, Elmer Kolfin a Paul J. Smith (goln), *'Tweelinge eener dragt': Woord en beeld in de Nederlanden (1500–1750)*, tt. 225–41, yn enw. tt. 234–8; *OG, III*, t. 135–6.

¹²¹ Odell, 'The soul of transactions', tt. 234–5.

¹²² *OG, III*, t. 146.

¹²³ Odell, 'The soul of transactions', t. 229. Ymhellach ynghylch gwaith Martini, ac ynghylch dibyniaeth ail ran cyfrol Nieuhof ar ei atlas, *Novus Atlas Sinensis*, a gyhoeddwyd fel rhan o *Atlas Major* Joan Blaeu (Amsterdam, 1655), gw. Lach a Van Kley (goln), *Asia in the Making of Europe. Volume III. A Century of Advance. Book Four: East*, tt. 1664–70, gyda'r cyfeiriad at yr atlas ar t. 1670.

¹²⁴ Odell, 'The soul of transactions', tt. 226–7.

welid yn yr Iseldiroedd, gan gartrefoli'r wlad estron hon yn amgyffred ei ddarllenwyr ('Nieuhof explicitly relates Chinese architecture to Dutch prototypes, as when he describes a "fortress of stone constructed in a manner similar to ours" ').¹²⁵ Fe'i dilynwyd yn hyn o beth gan Pennant, sydd, yntau, yn defnyddio technegau 'cartrefoli' yn ei adroddiad, gyda sawl enghraifft yn yr adran sy'n dilyn cwrs taith Nieuhof. Wrth gychwyn ar y siwrnai honno, defnyddiodd derm cyfarwydd yn nhraddodiad gweledol a llenyddol y Gorllewin i ddisgrifio'r dirwedd: 'Many of the landscapes are most picturesque'.¹²⁶ Yn ddiweddarach, sylwodd ar ddinasoedd ar hyd y camlesi a ymdebygai i Fenis: 'Many of the towns appear like Venice, built in the water, and some even below', meddai am drefi yn ardal Kajutsiu, a nododd (gan ddyfynnu Nieuhof) bod Tien-sing-foo "'like Venice built on a morass" '.¹²⁷ Yr oedd cyffelybiaeth o'r Clasuron yn barod at ddefnydd Pennant wrth iddo ddisgrifio creigiau Suytjeen neu'r 'pum diafol arswydus', 'as much dreaded as Scylla and Charybdis for the frequent shipwrecks near them'.¹²⁸

Un thema flaenllaw yng ngwaith Nieuhof oedd y goncwest Manshw ddiweddar, yr oedd ei holion yn dal i'w gweld ar y llwybr y teithiodd ar ei hyd. Adleisiodd Pennant beth o'r cyfeirio at y dinistr hwn, ond hefyd agwedd gadarnhaol y berthynas a ddatblygodd rhwng y Manshwiaid a'r Tsieineaid yn dilyn y goresgyniad. Ym mhrofiad Nieuhof, yr oedd y Tsieineaid yn fwy dylanwadol na'r Manshwiaid wrth drafod gofynion y llysgenhadaeth o'r Iseldiroedd, ffaith a adlewyrchai'r modd yr ymdoddodd y ddwy hil yn ddigweryl wedi'r gyflafan.¹²⁹ Trafodwyd yr asiad hwn gan Pennant, yn ogystal. Rhagflaenodd ei drafodaeth gyda darlun o'r goncwest ei hun, lle y defnyddiodd gartrefoli fel strategaeth, drachefn, gydag enghraifft o'r traddodiad Brytanaidd fel sail, y tro hwn. Wedi cwmp hunanladdiad yr ymerawdwr Tsong-Ching yn 1644, adroddodd, cymerwyd yr awenau ar ran y Tsieineaid gan ei gadfridog:

but unfortunately, like our Vortigern, [he] called in the assistance of a foreign power; he invoked the Manchew Tartars, who, headed by their monarch Tsong-te, united with him, and expelled the usurper. Tsong-te died as soon as that was effected; but before his death, declared his infant son emperor of China. The general found his error too late, yet submitted to the necessity, and supported the new succession.¹³⁰

Aeth ymlaen i drafod sut y derbyniwyd arferion Han gan y Manshwiaid, er mai hwy yn awr oedd mewn grym yn Tsieina ('the prince, and all the Tartarian subjects he brought with him, adopted, in the most minute articles, the antient rules of the empire, its laws and customs, and assumed the habits of the conquered people').¹³¹ Yr oedd cyfeiriad Pennant at benodi Tartariaid a Tsieineaid fel ei gilydd i swyddi a ofynnai am ddibynadwyedd yng ngweinyddiaeth sifil a milwrol y wlad yn adlewyrchu portread Nieuhof o lywodraeth Tsieina

¹²⁵ Ibid., t. 228.

¹²⁶ *OG*, III, t. 136. Ar y ddamcaniaeth hon o'r ddeunawfed ganrif ynghylch tirwedd, a ragflaenai ysfaedd y cyfnod Rhamantaidd tuag at yr aruchel ('sublime') ac a flaenoriaethai arddulliau brodorol ym Mhrydain dros rai cyfandirol, gw. Iain McCalman (gol.), *An Oxford Companion to the Romantic Age: British Culture 1776–1832* (Oxford, 1999) d.g. picturesque.

¹²⁷ *OG*, III, tt. 143, 146.

¹²⁸ Ibid.

¹²⁹ Lach a Van Kley (goln), *Asia in the Making of Europe. Volume III. A Century of Advance. Book Four: East*, tt. 1669–70.

¹³⁰ *OG*, III, t. 100.

¹³¹ Ibid.

fel y'i gwelsai ef hi'n gweithredu.¹³² Lle y trafodwyd enghreifftiau o'r Clasuron fel cyffelybiaethau posibl â choncwest y Manshwiaid mewn astudiaeth o'r hanes gan y gwleidydd a'r clericwr Juan Palafox y Mendoza (1600–59), gan basio ei bod yn debycach i oresgyniad Carthago gan y Rhufeiniaid nag i losgi Caerdroea neu oresgyniadau gan y barbariaid o'r Ymerodraeth Rufeinig, yr oedd gan Pennant naratif frodorol at ei ddefnydd yn stori brad y cyllyll hirion, pan dwyllwyd Gwrtheyrn (Vortigern) i dderbyn cymorth yr Ellmynwyr Hengist a Horsa, cyn ei fradychu i ildio tiriogaethau lu iddynt.¹³³ Y mae'r gyffelybiaeth yn anochel yn peri i ni holi a welai Pennant les yn y goruchafiad Ellmynnaidd ym Mhrydain a gyfatebai i'r ymostyngiad a ddangosodd yr Han Tsieinaidd i'r goncwest Manshw. A oedd o'r farn bod cydblethu cadarnhaol wedi bod rhwng Cymry a Saeson ar Ynys Prydain mewn dull a adlewyrchai'r modd y derbyniodd y Manshwiaid arferion Tsieinaidd Han? Dyma achos a awgryma sut y gallai myfyrio ynghylch diwylliant estron fod wedi codi cwestiynau i Pennant ynghylch safbwyntiau'n ymwneud â hanes a datblygiad ei bobl ei hun.

Ymhlith yr engrafiadau a ddewiswyd gan Pennant o gyhoeddiad Nieuhof yr oedd sawl un yn darlunio pagodâu Tsieinaidd. Wrth ddisgrifio'r sefydliadau hyn, rhoddodd Pennant rwydd hynt i'w atgasedd at eilunaddoliaeth:

Farther on, not remote from the city Xaochew or Tchou-tchoo-soo a vast mountain seems to open its sides to make room for the famed pagoda Konjan-Sjam, filled with horrid idols, to whom almost constant sacrifices are offered by the fanatical visitants.¹³⁴

Yma, fel mewn manau eraill, archwiliodd Pennant y berthynas rhwng medr ('art') a natur fel petai mewn ymdrech i ddarganfod a oedd yr arferion a oedd mor atgas ganddo yn rhan greiddiol o hanfod tiriogaeth Tsieina, ynteu ai ymdrechion cyfeiliornus dyn oedd yn gyfrifol amdanynt. Yn ddiweddarach, cyflwynodd i'r darlennydd fryniau creigiog, 'cut or pierced through by human art, into grotesque forms merely to please the eye' – disgrifiad sy'n awgrymu gweithrediad dynol (a'r holl dwyll y gall y gair 'art' ei gyfleu) i wyrddroi hanfod sylfaenol tiriogaeth Tsieina. Y mae enwi'r creigiau fel rhai 'grotésg' yn dwyn i gof ddisgrifiadau eraill yn ei adroddiad o ddelwau fel 'monstrous' neu 'horrid', ac yn poblogi tirwedd Tsieina hyd yn oed ag eilunod ond gan sicrhau, ar yr un pryd, na roddir camargraff ynghylch ei rhyfeddodau gwyrddroedig drwy honni mai natur a'u piau.¹³⁵

Er ei fod yn gyson ddrwgdybus o eilunaddoliaeth, mewn rhan arall o'i adroddiad, llwyddodd Pennant i resymolegi'r arfer ymhlith y Tsieinaid drwy ei gymharu â dull y Catholigion ar hyd a lled Ewrop o gynnig gweddïau i'r seintiau:

¹³² Lach a Van Kley (goln), *Asia in the Making of Europe. Volume III. A Century of Advance. Book Four: East*, t. 1670.

¹³³ *Ibid.*, t. 1672. Am ddehongliad o'r ddeunwfed ganrif o stori 'Brad y Cyllyll Hirion', oedd â'i gwreiddiau yn *De Excidio Britanniae* Gildas (fl. c.500–550 OC) a *Historia Brittonum* Nennius (829 OC), gw. Theophilus Evans, *Drych y Prif Oesoedd Yn ôl yr argraffiad cyntaf: 1716*, gol. gan Garfield H. Hughes (Caerdydd, 1961), tt. 64–84. Gw. hefyd John T. Koch (gol.), *Celtic Culture: A Historical Encyclopedia* (Santa Barbara, CA, 2006) d.e. Gildas; Gwrtheyrn.

¹³⁴ *OG, III*, tt. 136–7; ac Atodiad Delweddau, rhif 4 (iii).

¹³⁵ *OG, III*, tt. 93, 137; a gw. Atodiad Delweddau, rhif 9.

The city Xaochew next appears, near the conflux of two rapid rivers, infamous for frequent wrecks. A pagoda is erected on the banks, famed for its idol, to which mariners send up their prayers for a safe passage, as the Romans did of old, and as the Christians of many parts of Europe do to their Saint Elmo.¹³⁶

Gwrthsafai'r cysylltiad croesgyfandirol hwn hanesyddoliaeth yr hegemoni deallusol Ewropeaidd, hyd yn oed, drwy gyfeirio at ystod amser yn cwmpasu oes y Rhufeiniaid a'r presennol Ewropeaidd. Profiad o gyfandir Ewrop oedd gweddio i Sant Elmo, ac y mae'n bur bosibl na ddymunai Pennant ymgyffwrdd ag ef ond fel un o ffaeiddau'r ffydd Gatholig. Serch hynny, yr oedd yn fan cyffwrdd cyfarwydd ac, fel yn achos ei ddefnydd o dystiolaeth Jeswitiaid Ffrainc, yn cynnig troed i mewn i Pennant i ymerodraeth ryfeddol a dieithr Tsieina.

Casgliad

It would be impossible for me to describe my feelings when I found myself actually at Hankou. I could hardly believe that I was standing in the very centre of that China that has been closed till then against the outer barbarian, and that it would be my privilege on the very next day to appear as a missionary of the Cross in the streets of the famous city.¹³⁷

Dyma eiriau gorfoleddus y cennad o Abertawe, Griffith John (1831–1912), a dreuliodd dros hanner can mlynedd yn Tsieina, pan gyrhaeddodd ddinas Hankou yn nhalaith Hubei ym mis Mehefin 1861. Amgylchiadau gwleidyddol trychinebus i Tsieina yn dilyn Ail Ryfel Opiwm (1857–9) a chytundeb Tianjin (1860) a ffafriai bwerau'r Gorllewin dros y Tsieineaid a'i gwnaeth yn bosibl i John sefyll ar strydoedd Hankou, ac er ei fod yn ymwybodol o anfadwaith Prydain yn cyflwyno opiwm fel pla i'r Tsieineaid (disgrifiodd ef fel 'the very bane of China'), gorchfygiad dwyfol dros ddetholusrwydd Tsieina ('the triumph of Divine providence over China's exclusiveness') a ddygai orfoledd a llawenhad iddo oedd cael bod yn Hankou.¹³⁸

Cynrychiolai John genedlaethau o deithwyr gwirioneddol o Gymru i Tsieina, ochr yn ochr â'i wraig Margaret (bu farw 1873) ynghyd â'r cennad blaenllaw arall, Timothy Richard o Ffaldybrenin, sir Gaerfyrddin.¹³⁹ Yn wahanol i Pennant, ysgogiadau crefyddol a symbylai'r bobl hyn. Serch hynny, yr oedd y teimlad o ryddhad rhag rhwystredigaeth a fynegwyd gan John pan wnaed mynediad i un o rannau mewnol Tsieina yn bosibl iddo yn 1861 yn adleisio'r heriau a lethodd Pennant wrth iddo lunio ei adroddiad cadair freichiau o'r ymerodraeth enfawr hon. Cyfyngedig oedd y lleisiau a siaradai am Tsieina wrth drigolion y Gorllewin cyn diwedd y ddeunawfed ganrif a bu'n rhaid i Pennant ddibynnu'n drwm ar dystiolaeth

¹³⁶ *OG, III*, t. 137.

¹³⁷ John Aaron, *Griffith John* (Welwyn Garden City, 2016), t. 36.

¹³⁸ *Ibid.*, tt. 34, 36; ac ymhellach ar y Rhyfeloedd Opiwm, *ibid.* tt. 31–4; a Wood, *The Story of China*, tt. 400–1, 429.

¹³⁹ Am fenywod o Gymru a ymwelodd â Tsieina, yn eu plith y nyrs Elizabeth Davis (Betsi Cadwaladr; 1789–1860), gw. 'Menywod Cymru yn Tsieina: 200 mlynedd o gysylltiad anhygoel â Tsieina', ar <<https://www.uwtsd.ac.uk/cy/newyddion/datganiadau/wasg-2022/menywod-cymru-yn-tsieina-200-mlynedd-o-gysylltiad-anhygoel-a-tsieina-.html>> [cyrchwyd 8 Rhagfyr 2022].

Catholigion Ffrengig, carfan yr oedd yn ei deimladau tuag atynt yn pendilio rhwng edmygedd a drwgdybiaeth, ac yn cynnwys peth dirmyg, yn ogystal. Atynt hwy, yr oedd twyllwyr megis Psalmanazar, a ffugiodd wyddor ar gyfer Formosa (Taiwan), Portiwgeaid megis Simon Andrada, a ddigiodd y Tsieineaid cyn cael ei ddiarddel o'u gwlad, a'i gydwladwyr diweddarach a ddefnyddiodd 'fesur croen ych' brenhines Carthago i gael eu troed i mewn i Taiwan. Yn y cwmni brith hwn, yr oedd Marco Polo, er gwaethaf bwlch o bum can mlynedd, yn llais y gallai Pennant ddilysu ei dystiolaeth drwy gyfeirio at hygredd ei dystiolaeth o fyd natur a chefnogi ei wybodaeth o ddaearyddiaeth Tsieina. Defnyddiodd ei waith ef ei hunan fel naturiaethwr i gyflawni'r dasg gyntaf, a chroesgyfeiriadau at daith fwy diweddar gan yr Iseldirwr Johan Nieuhof er mwyn lleoli'n ddaearyddol y manau y cyfeiriasai Polo atynt.

Nieuhof, y mae'n bur debyg, yw seren adroddiad Pennant ar Tsieina. Drwy gyfrwng ei daith 2,400km o Guangzhou i Beijing, llwyddodd yr Iseldirwr i ddatgelu ystod ehangach o ddaearyddiaeth Tsieina nag unrhyw un arall hyd ddyddiau Pennant. Darluniwyd y daith gan ddelweddau'n dangos trefi, adeiladau dinesig a chrefyddol, ac enghreifftiau o fyd natur, delweddau y gwnaeth Pennant ddefnydd llawn ohonynt yn ei fersiwn lawysgrif o'r testun, gan eu gludo ar waelodion tudalennau neu'n rhesi o dair delwedd ar dudalennau cyfan. At hyn, yn fersiwn John Ogilby o destun y daith, dygwyd ynghyd dystiolaeth o waith Jeswit arall, Athanasius Kircher, a ymestynnai ymhellach y cofnod daearyddol o Tsieina. Yn ei atgynhyrchiadau o waith Kircher, cynhwysodd Ogilby brintiau ethnograffig yn dangos pobloedd Tartaria, y diriogaeth i'r gogledd o Tsieina yr hannai'r Manshwiaid ohoni; arferion eilunaddolgar y Tartariaid a'r Tsieineaid; anifeiliaid, adar, a phlanhigion; ac ambell gofnod gweledol o ddigwyddiadau symbolaidd (megis cyfnewid y clychau yn Beijing yn ystod teyrnasiad Yongle; Atodiad Delweddau, rhif 7). Unwaith eto, gwnaed defnydd o ddetholiad o'r rhain gan Pennant yn ei adroddiad llawysgrif. Ochr yn ochr â phrintiau'n cofnodi presenoldeb y drindod nodedig o Jeswitiaid a glodforwyd gan Du Halde (Atodiad Delweddau, rhifau 5 a 6), cynigiodd y delweddau hyn ddarlun llawn o'r bresenoldeb Ewropeaidd a ganiatawyd yn Tsieina, gan gofnodi, yn achos y Jeswitiaid, yr ymdrechion er syncretiaeth ddiwylliannol.

Wrth ymgodymu ag ymerodraeth helaeth, hanesyddol anhygyrch Tsieina, gosododd Pennant ei hun o fewn disgwrs Ymoleuedig meddylwyr mawr y ganrif o'i flaen, yn fwyaf amlwg Montesquieu, gan bwysu a mesur grym unbennaeth a'i effaith ar anian y Tsieineaid fel pobl. Yr oedd canolbwyntio fel hyn ar nodweddion cenedl yn anochel yn ei ddwyn at ystyriaethau ynghylch hil ac ethnigrwydd, a gwelir ef yn dilyn sylwebwyr blaenorol megis Kircher a Du Halde gan bwysu a mesur blaengarwch y Tsieineaid yn erbyn cyraeddiadau'r hegemoni Ewropeaidd. Y mae eilunaddoliaeth yn faes na all lacio ar ei deimladau o ffeidd-dod wrth ei ddisgrifio: y mae cerfiadau'r Tsieineaid o greigiau i greu gofod ar gyfer pagodâu bron fel petai'n anrheithio natur, a'r feirniadaeth o offeiriadau Hindwâidd yn gyson ddiymatal. Serch hynny, yn ôl patrwm dosbarthiad hiliol ei gyfnod, y mae'r Tsieineaid yn 'veritablement [*sic*] blancs', ac nid hil yw canolbwynt y gyfrol hon o 'Outlines of the Globe'. Yn hytrach, teyrnas sy'n aeddfedu tuag at berthynas fasnachol ddyfnach â'r Gorllewin ydyw: yn ystadegau manwl ei gydnabod, Thomas Fitzhugh, rhydd Pennant gipolwg o'r posibiladau gogleisiol ar gyfer dyfnhau cyswllt economaidd llesol ag un arall o wledydd mawr Asia ac o'r budd i wybodaeth a ddaw yn sgil hynny.